CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Asesiad Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd o Ddarparu Toiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn

**Cwrs Cymhwysedd 2015 y CIEH ar Asesiad Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd (AEI)**

**Dyddiad Cyflwyno 31ain o Ragfyr 2016**

**Gan**
**Huw Arfon Thomas**
**Rheolwr Gweithredoedd Iechyd yr Amgylchedd (Gwarchod yr Amgylchedd)**

Her Iechyd Môn Health Challenge Anglesey

Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfa'r Sir,
LLANGEFNI,
Ynys Môn,
LL77 7TW.

(01248) 752820

Regulation and Economic Development Department,
Isle of Anglesey County Council,
County Offices,
LLANGEFNI,
Anglesey.
LL77 7TW

(01248) 752820

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** 5

**1 Cyflwyniad** 9

**2 Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?** 13

**3 Sgrinio - Penderfynu a ddylid cynnal AEI** 16

**4 Y Cwmpas a'r Fethodoleg - Penderfynu ar y ffocws a'r cynllun Gwaith** 20

**5 Proffil Cymunedol** 22

5.1 Demograffeg Ynys Môn 22
5.2 Proffil Teithio 24
5.3 Proffil Amddifadedd 25
5.4 Proffil Iechyd Môn 32

**6 Cyfraniad Rhanddeiliaid** 37

6.1 Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd 37
6.2 Grŵp Ffocws 41

**7 Asesiad** 48

7.1 Grwpiau Bregus - 48
7.1.2 Digartrefedd ac unigolion ar incwm isel 52
7.2 Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd (Arwahanrwydd ac unigrwydd). 56
7.3 Ynediad at y Gwasanaethau a'u hansawdd (Gostyngiad mewn mwynderau, darpariaeth amgen gan fusnesau preifat a defnyddio TG) 59
7.4 Amgylchiadau Byw ac Amgylcheddol sy'n cael Effaith ar Iechyd (Baeddu strydoedd, yn enwedig ar hyd yr A55(C)). 61
7.5 Ffactorau micro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd (Cyd-destun Polisi) 62

**8 Casgliadau ac Argymhellion** 64

**9 Monitro a Gwerthuso** 66

**10 Cyfeirnodau** 67

## Atodiadau


1: Rhaglen waith ar gyfer y dyddiad cau gwreiddiol.

2: Rhestr Wirio'r Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Gweithdy Cyfranogol, y 19eg o Ebrill 2016.

3: E-bost i'r Cwmni Cludo Nwyddau ynglŷn â'r grŵp ffocws.

4: Ymatebion y Grŵpiau Ffocws.

5: Holiadur ynghylch Toiledau.


## Rhestr o Dablau


Tabl 1: Tabl 1: Rhestr o Doiledau Cyhoeddus a Reolwyd gan GSYM yn 2011 a 2016.

Tabl 2: Poblogaeth Ynys Môn 1991 – 2011.

Tabl 3: Cyflogaeth ar Ynys Môn yn ôl sector y diwydiant.

Tabl 4: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o Bwysoliadau Meysydd.

Tabl 5: Adeiladau'r Cyngor gyda thoiledau cyhoeddus.

Tabl 6: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig Ynys Môn yn seiliedig ar Fynediad at Wasanaethau.

Tabl 7: Lefelau LUTS (Symptomau'r Llwybr Wrinol Is) ar draws byrddau iechyd Cymru.

Tabl 8: Canlyniad Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd o ran materion cadarnhaol a negyddol a nodwyd.

Tabl 9: Tabl yn dangos y materion a sgriniwyd i mewn neu allan ar ôl y gweithdy cyfranogol.

Tabl 10: Cynllun Gweithredu Drafft Arwahanrwydd ac Unigrwydd Ynys Môn Gorffennaf 2015 .

Tabl 11: Argymhellion.


## Rhestr Ffigyrau


Ffigwr 1: Y Penderfynyddion iechyd (Dahlgren and Whitehead 1990)

Ffigwr 2: Map yn dangos dosbarthiad tlodi ar draws Gogledd Cymru

Ffigwr 3: Mynegai Amddifadedd Cymru 2014

Ffigwr 4: Mynediad at Faes Gwasanaethau

Ffigwr 5: Canran yr holl drigolion yng Nghymru sy'n ystyried bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu wael iawn, Cymru ac awdurdodau lleol, Mawrth 2011.

Ffigwr 6: Canran yr holl drigolion sy'n ystyried bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu wael iawn, rhanbarthau Cymru, Lloegr a rhanbarthau Lloegr, Mawrth 2011.

Ffigwr 7: Canran holl drigolion Cymru y mae problem iechyd tymor hir neu anabledd yn cyfyngu llawer neu ychydig ar eu gweithgareddau beunyddiol, Cymru ac awdurdodau lleol, Mawrth 2011.
Ffigwr 8: Trigolion y mae problem iechyd tymor hir neu anabledd yn cyfyngu llawer neu ychydig ar eu gweithgareddau beunyddiol, Mawrth 2011.
Ffigwr 9: Nodau Llesiant.

# Crynodeb Gweithredol

Mae gan awdurdodau lleol rôl amhrisiadwy wrth sicrhau bod gan unigolion gyfleusterau toiled digonol pan fyddant i ffwrdd o'u cartrefi, ond nid yw, o reidrwydd, yn dilyn mai nhw ddylai fod unig ddarparwyr y gwasanaethau hyn. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn rhoi Pwerau i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, ond nid yw'n eu rhoi dan unrhyw ddyletswydd i wneud hynny. Nid Cyngor Sir Ynys Môn yn unig sy'n ystyried ei ddarpariaeth toiledau cyhoeddus ac mae Cymdeithas Toiledau Prydain (BTA) yn amcangyfrif bod 40% o doiledau'r DU wedi cau yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf.

Gan ymateb i'r llanw hwn o gau toiledau cyhoeddus, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Iechyd y Cyhoedd yn 2016 a fyddai'n rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi strategaethau toiledau lleol yn seiliedig ar anghenion eu cymunedau (Cymeradwywyd y Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol yr 16eg o Fai 2017).

Gwnaed cynnig i WHIASU (Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru) i gynnal Asesiad Rhagarweiniol Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd (AEI) fel rhan o Asesiad Cymwyseddau AEI yr Awdur. O gofio bod y Bil hefyd yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cyhoeddus ymgymryd ag AauEI, credai'r awdur bod dadl gref dros ddefnyddio'r dull asesu mwy deniadol hwn i baratoi strategaethau toiledau unigol (neu gynorthwyo i'w paratoi). Y bwriad oedd treialu hyn trwy edrych ar yr amgylchiadau penodol a ddarganfuwyd ar Ynys Môn a Chanllawiau Ymarferol WHIASU (2012) (www.whiasu.wales.nhs.uk) oedd yn darparu'r dewis ddull.

Byddai'r asesiad yn cynnwys adolygu llenyddiaeth gan ddefnyddio *Google* a *Google Scholar* i chwilio am ganlyniadau iechyd cau toiledau cyhoeddus. Câi ffynonellau pellach eu dilyn o restrau cyfeirnod ffynonellau llenyddiaeth dibynadwy. Ond, yn y pen draw, canfu mai llenyddiaeth lwyd gan sefydliadau a chyrff llywodraethol oedd y ffynhonnell dystiolaeth sylfaenol yn hytrach na phapurau a adolygwyd gan gyfoedion.

Casglwyd tystiolaeth ansoddol o wahanol arbenigwyr AEI / Iechyd y Cyhoedd a rhanddeiliaid trwy gyfathrebu'n uniongyrchol a gweithdy cyfranogol hanner diwrnod ar Asesisad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd (oedd yn dwyn ynghyd pobl hyn, rhieni â phlant

bach, twristiaid, y gwasanaeth darparwyr a chynrychiolwyr cymunedol). Arweiniodd hyn at nodi nifer o effeithiau negyddol a chadarnhaol ar iechyd, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn, a gafodd yna'u cwmpasu yn yr asesiad pellach: -

| Grwpiau Bregus | Ffyrdd o Fyw Unigol | Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd | Amgylchiadau Byw ac Amgylcheddol sy'n cael effaith ar Iechyd | Amgylchiadau Economaidd sy'n cael effaith ar Iechyd | Mynediad at Wasanaethau a'u hansawdd | Ffactorau Micro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl hŷn, unigolion ar incwm isel (a/ neu'r digartref), pobl â chyflyrau meddygol penodol, pobl ag anabledd dysgu, gweld a chlywed a thwristiaid | Dadhydradu – pobl (yn enwedig pobl hŷn a gyrwyr) yn osgoi yfed fel nad oes raid iddynt stopio mor aml i fynd i'r toiled | Arwahanrwydd ac unigrwydd ymhlithpobl hŷn ac anabl a allai fod yn gyndyn o fynd allan oherwydd nad oes toiledau cyhoeddus i gwrdd â'u hanghenion | Baeddu Strydoedd, yn enwedig felly ar hyd yr A55(C) | Mae'n cael effaith ar dwristiaeth a gweithwyr peripatetig | Gostyngiad mewn mwynderau, darpariaeth amgen gan fusnesau preifat a defnyddio TG | Polisïau |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Mireiniwyd y materion hyn trwy drafodaethau pellach gyda thri grŵp ffocws ar wahân [gweithwyr post, cwmnïau cludo nwyddau a bysus / bysus pleser (pob un ohonynt yn cyflogi gweithlu peripatetig)] a chyfweliadau dros y ffôn gyda sefydliadau sy'n gyfrifol am gynnal yr A55 (C) a chydag un arall sy'n gweithio ar ran pobl ddigartref. Ar ôl ystyried yr holl ffynonellau tystiolaeth (proffil cymunedol, tystiolaeth lenyddol a gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid) gwna'r AEI y 10 argymhelliad a ganlyn: -

| | **Argymhellion** |
|---|---|
| 1 | Dylai'r Awdurdod Lleol gofrestru'r holl doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio ar apiau perthnasol i ganfod toiledau, a chadw'r wybodaeth yn gyfredol. |
| 2 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y goblygiadau ar y Statws Gwobr Glan Môr cyn ystyried cau toiledau cyhoeddus ar unrhyw draeth. |
| 3 | Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at sicrhau darparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio fel rhan o gyfleuster Parc a Dalar Hir, pe rhoddid caniatâd cynllunio. |
| 4 | Dylai'r awdurdod lleol anelu at annog sefydliadau masnachol i roi arwyddion am doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio y tu allan i siopau a dylai toiledau cymunedol fod â’r un arwyddion ag sydd ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus. |
| 5 | Dylai'r awdurdod lleol ddyrannu'r arian sydd heb ei neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Toiledau Cymunedol er mwyn ymestyn nifer y toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio gan ystyried y maes angen. |
| 6 | Dylai'r Awdurdod Lleol hyrwyddo'r cerdyn "Just Can’t Wait" sydd ar gael ar gais gan Sefydliad y Bledren a’r Coluddyn. |
| 7 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried effeithiau cau toiledau cyhoeddus ar y digartref a lle na wneir darpariaeth amgen, dylai ystyried caniatáu i'r digartref ddefnyddio cyfleusterau hamdden ar gyfer ymolchi a rhoi sylw i’w hanghenion toiled. |
| 8 | Dylid ystyried effeithiau crebachu mewn darparu toiledau cyhoeddus yng nghyswllt cynllun gweithredu unigrwydd ac arwahanrwydd, yn hytrach nag fel mater ar wahân. Dylai'r cyfleusterau presennol gael eu mapio er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau ac er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiau adnoddau cyfyngedig. |
| 9 | Dylai'r awdurdod lleol geisio dylanwadu ar ddarparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio trwy benderfyniadau cynllunio. |
| 10 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y nodau Llesiant wrth ystyried cau toiledau cyhoeddus a sicrhau bod darpariaeth amgen yn ei lle. |

Daw'r AEI i'r casgliad bod yna ganlyniadau anochel pan fo awdurdod lleol yn cau toiledau cyhoeddus. Mae'r rhain yn amrywio o Effeithiau ar Wobrau Glan Môr ac effeithiau ar yr economi twristiaeth, i ddarparu gwasanaethau i'r digartref. Mae’r AEI

yn ei gwneud yn bosib i awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch cau toiledau cyhoeddus yn cael eu cymryd ar eu pen eu hunain a phan gymeradwyir eu cau, mae'n ei gwneud yn bosib targedu rhai o'r arbedion er mwyn lliniaru'r effeithiau, neu hyd yn oed, wneud i ffwrdd â nhw.

Dangosodd yr AEI ein bod wedi symud ymlaen o fod yn dibynnu'n unig ar doiledau cyhoeddus ac erbyn hyn rydym yn wynebu pryder ehangach ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn "Toiledau y mae modd i’r cyhoedd eu defnyddio". Nid yw p'un a ydynt yn cael eu gweithredu gan awdurdod lleol neu sefydliad preifat yn berthnasol iawn, ar yr amod fod y cyfleusterau o safon dda ac yn agored i bobl pan fo'u hangen arnynt. Mae'r AEI yn codi'r cwestiwn a oes gwir broblem ynghylch diffyg Toiledau Cyhoeddus ynteu ai methiant ydyw i fanteisio ar ffynhonnell o doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, nad ydyw wedi’i gwireddu hyd yn hyn, ac sy'n aml yn cwrdd â safonau uwch.

# 1 Cyflwyniad

**Cyflwyniad**

Bu pryder cynyddol ar lefel genedlaethol am nifer o flynyddoedd ynghylch cau toiledau cyhoeddus. Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin adroddiad ar Ddarparu Toiledau Cyhoeddus. Argymhelliad allweddol a awgrymwyd oedd y dylai fod yn ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn ei ardal. Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb a dywedodd ei bod yn ffafrio dull mwy hyblyg, a bod yn well ganddi ddatganoli'r mater i Awdurdodau Lleol a Chymunedau i benderfynu arno yn hytrach na gwneud gofyniad ohono.

Ym mis Mawrth 2012, cynhyrchodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar " Goblygiadau iechyd cyhoeddus o gyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol - adroddiad tystiolaeth". Roedd yr Adroddiad yn grynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor a daeth i'r casgliad: -

"*Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bwriad y Pwyllgor oedd profi'r cynnig bod darparu toiledau cyhoeddus annigonol yn cael effaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Pwyllgor yn gadarn o'r farn bod y cynnig yn gywir: mae'r* ***achos iechyd cyhoeddus*** *ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus gwell yn gryf.* "

Ymddengys fod y dirywiad mewn toiledau cyhoeddus yn troi ar y ffaith bod Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn rhoi Pŵer i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, er nad yw'n ei gwneud yn ddyletswydd arnynt wneud hynny. Mae Cymdeithas Toiledau Prydain (BTA) yn amcangyfrif bod 40% o doiledau'r DU wedi cau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn unig a bod mwy yn debygol o gau (Kemp, 2012). Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi'i daro gan y pwysau ariannol sydd wedi ysgogi cynghorau i gau toiledau ac ym mis Rhagfyr 2011, rhoes y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol (Ynys Môn, 2011) ystyriaeth i adroddiad oedd yn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer arbed £30,000 yn flynyddol o'r gyllideb cyfleusterau cyhoeddus £340,000; ond mewn ffordd a fyddai'n niweidio cyn lleied â phosib ar fywydau pobl. Er gwaethaf y ffaith bod y gorwariant yn hanesyddol yn

sylweddol (yn 2010/11 roedd y gorwariant oddeutu £49,000), nodwyd arbedion posib o tua £60,381.03.

Cyn ysgrifennu’r adroddiad, rheolai’r Cyngor 35 o doiledau cyhoeddus, ffigwr nad oedd wedi newid fawr ddim er 1998. Yn ystod yr un cyfnod, roedd y sefyllfa yng Nghymru wedi bod yn llawer gwaeth, gyda dirywiad yr adroddwyd arno o 806 i 565 (30%) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012). Ymddengys bod Ynys Môn wedi bod ymhlith un o'r awdurdodau diwethaf i wynebu'r realiti llym o dorri cyllideb y Toiledau Cyhoeddus. Serch hynny, mae'n amlwg bod hwn yn benderfyniad anodd i aelodau a bydd yn dod yn gynyddol amlwg, yng ngweddill y ddogfen hon, pam fod cau toiledau cyhoeddus yn bwnc mor emosiynol.

Yn hytrach na mynd ati i gau toiledau’n gyfan gwbl, ystyriodd y Pwyllgor ddulliau eraill o’u darparu; roedd hyn yn cynnwys llai o oriau agor, codi tâl, a throsglwyddo perchnogaeth i gynghorau neu sefydliadau cymuned lleol. Ystyriwyd cau yn bennaf lle'r oedd darpariaeth amgen ar gael trwy, er enghraifft, y Cynllun Toiledau Cymunedol. Bryd hynny, roedd 35 o fusnesau ar draws yr Ynys wedi cytuno i gynnig eu toiledau i’r cyhoedd yn gyffredinol eu defnyddio. Cynllun wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru oedd hwn a derbyniai pob sefydliad oedd yn cymryd rhan daliad blynyddol o £500. Roedd y Cynllun yn ad-dalu awdurdodau lleol hyd at uchafswm o £17,500 fesul awdurdod ac, yn amlwg, recriwtiodd Ynys Môn yr uchafswm posib gyda'i gyfraniad o £500 i bob busnes. Yn 2014/15 trosglwyddwyd cyfanswm o £200,000 ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i'r Grant Cynnal Refeniw yn yr hyn a ystyriwyd yn: -

*".... symudiad i gynyddu hyblygrwydd cyllid i awdurdodau lleol. Bellach mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ei wasanaethau, er mwyn diwallu anghenion a blaenoriaethau ei gymunedau ".*

Gellid gwario'r arian hwn, nad oedd wedi’i neilltuo, ar beth bynnag y teimla'r awdurdod lleol oedd fwyaf haeddiannol, gallai hyn fod yn doiledau cyhoeddus neu beidio: -

"... .*gan nad yw'r cronfeydd hyn wedi'u neilltuo, mae perygl y gallai awdurdodau lleol flaenoriaethu gwariant mewn mannau ac eithrio cyfleusterau toiledau oherwydd pwysau ariannol."* **Llywodraeth Cymru (Tachwedd, 2016)**

Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn 'Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig' gan gynnig Bil Iechyd y Cyhoedd oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu strategaethau toiledau lleol, a eglurir ymhellach ym mharagraff 238 y memorandwm Esboniadol (2016 ): -

*"Ni fydd y ddyletswydd i lunio strategaeth toiledau lleol ynddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ond bydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth strategol ar draws eu hardal i sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn a sicrhau eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth leol. Wrth wneud hynny rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ystod lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. Enghraifft o'r broses hon yw pe na byddai toiled cyhoeddus ar gael mewn parc ond bod awdurdod lleol yn nodi bod angen un. Dylai'r awdurdod lleol ystyried gwahanol ffyrdd o sicrhau y caiff yr angen hwnnw ei ddiwallu. Gellid gwneud hyn trwy i'r awdurdod lleol ddarparu'r cyfleuster yn uniongyrchol, ond gellid diwallu'r angen llawn cystal mewn ffyrdd eraill, er enghraifft trwy i'r awdurdod lleol weithio gyda busnes preifat yn y parc neu'n agos ato i sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd."*

At hyn, yn ôl paragraff 243, câi canllawiau eu cyhoeddi y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried: -

*"Ymysg y testunau a fydd yn dod o dan y canllawiau mae sut y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod toiledau ar gael ar y priffyrdd (er enghraifft cefnffyrdd fel yr A470), a sut y bydd y cyfleusterau sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau sydd eisoes yn derbyn cyllid cyhoeddus, fel canolfannau chwaraeon, llyfrgelloedd a chyfleusterau eraill tebyg, yn medru bod ar gael i'r cyhoedd. Bydd y canllawiau statudol hefyd yn edrych ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn yr ardal, gan gynnwys eu lleoliad ac a ydynt ar gael i'r rhai sy'n byw yn yr ardal, yn ymweld neu'n pasio."*

Roedd yn ymddangos bod cyfiawnhad cryf dros orfodi awdurdodau lleol i greu strategaethau, oherwydd ei bod yn amlwg nad oedd camau a roddwyd ar waith mewn ymgais i atal y dirywiad yn cael yr effaith ddymunol. Yn ei Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd, amcangyfrifai Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2016) fod saith awdurdod lleol naill ai wedi atal Cynllun y Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn 2014/15 neu yn y broses o'i atal, gyda phump arall erioed wedi cymryd rhan. Roedd hyn yn arwain Llywodraeth Cymru i ystyried ailneilltuo'r grant, gyda'r disgwyl y byddai pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cymryd rhan ac yn defnyddio'u dyraniad grant. Er y byddai hyn yn sicrhau bod tua 18 o fusnesau busnes gyda thoiledau ar gael i'r cyhoedd ym mhob ardal awdurdod lleol, yr ofn oedd y gallai hyn arwain at drosglwyddo'r arian a ddefnyddid ar hyn o bryd ar gyfer toiledau cyhoeddus i flaenoriaethau cystadleuol eraill. O'r herwydd, dewis opsiwn Llywodraeth Cymru oedd i'r arian aros heb gael ei neilltuo ac i awdurdodau lleol gynnal asesiad o'r angen am doiledau yn eu hardaloedd trwy strategaethau toiledau. Câi'r rhain eu llunio yn dilyn ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid ynghylch eu canfyddiad nhw o angen, ac ar ôl ystyried ffactorau eraill megis dulliau priodol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleusterau.

O gofio y nodir hefyd yn y Bil Iechyd y Cyhoedd bod gofyn i awdurdodau cyhoeddus ymgymryd ag AauEI, credai'r awdur bod dadl gref dros ddefnyddio'r dull asesu mwy deniadol hwn i baratoi strategaethau toiledau unigol (neu gynhorthwyo i'w paratoi) a'r bwriad oedd treialu hyn trwy edrych ar yr amgylchiadau penodol a geir ar Ynys Môn.

# 2 Beth yw Asesiad o Effaith ar Iechyd?

Mae Consensws Gothenburg y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Polisi Iechyd (1999) yn cael ei dderbyn yn eang fel y diffiniad arloesol o Asesiad Effaith ar Iechyd a'i ddiffinio fel: 'Cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer o’r hyn y gellir barnu polisi, rhaglen neu brosiect o ran ei effeithiau posib ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth '. Fodd bynnag, cynigiwyd diffiniadau amgen yn ddiweddar (Elliott et al. 2010) wrth i’r arfer o AEI esblygu: '... proses trwy’r hyn y daw tystiolaeth (o wahanol fathau), buddiannau, gwerthoedd ac ystyron i mewn i ddeialog rhwng rhanddeiliaid perthnasol (gwleidyddion, gweithwyr proffesiynol a dinasyddion) er mwyn deall yn ddychmygus a rhagweld effeithiau newid ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd mewn poblogaeth benodol '.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r defnydd o AEI fel rhan allweddol o strategaethau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Ar hyn o bryd nid yw'r AEI yn ofyn statudol yng Nghymru nac yn unrhyw le arall yn y DU, ond mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn fwyfwy fel arfer gorau er mwyn ystyried iechyd a lles yn benodol mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud ag iechyd. Dywed Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 (Chwefror 2014) ar gyfer gwastraff: -

> *"Gallai cynnal asesiad o’r effaith ar iechyd yn gynnar fod yn werthfawr o ran pryderon iechyd a lles, fodd bynnag, dylid nodi'r effeithiau gwirioneddol a / neu bosib ar iechyd dynol sy'n deillio o gynnig fel rhan o waith cynnal asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd."*

**Paragraff 4.72 TAN 21 Gwastraff.**

Mae dogfen ymgynghorol ddiweddar Llywodraeth Cymru ar Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2016) yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau o effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol. Y nod yw: -


*"Dylai’r asesiadau gael eu cyfyngu i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni sydd â chanlyniadau o arwyddocâd cenedlaethol neu bwysig, neu sy'n cael effaith sylweddol ar lefel leol ar iechyd y cyhoedd ".*

Hefyd, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cynigir y bydd yr holl gyrff cyhoeddus a ddiogelir gan y Ddeddf honno yn cael eu cwmpasu gan y gofynion i gynnal AEI. O’r herwydd, ymddengys bod ymrwymiad a disgwyliad cynyddol mai AEI yw'r dull priodol ar gyfer asesu effaith cynigion ar iechyd.

O fewn yr AEI hwn, ystyrir bod "Iechyd" yn dod o fewn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (1948):

***"Cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yw iechyd ac nid absenoldeb afiechyd neu wendid yn unig".***

Cynrychiolir penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd amlaf gan y model a ddatblygwyd gan Dahlgren a Whitehead 1991.




**Ffigwr 1: Penderfynyddion (Dahlgren and Whitehead 1990)**

Mae'r model hwn yn dangos sut gall gwahanol ffactorau gael effaith ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyd-destun personol unigolyn. Gallai rhai effeithiau ar benderfynyddion iechyd fod yn uniongyrchol, amlwg a / neu’n fwriadol, tra gall eraill fod yn anuniongyrchol, yn anodd eu nodi ac yn anfwriadol. Mae dosbarthiad anghyfartal y penderfynyddion cymdeithasol hyn yn arwain at anghydraddoldeb mewn iechyd. Mae'r AEI yn ceisio rhagweld a lliniaru'r effeithiau hyn. Mae'n offeryn i gefnogi gwneud penderfyniadau ac, fel y cyfryw, gall fod yn fodd i gynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau a chymunedau gyda’r effeithiau posib ar iechyd a lles, ond nid dyna'r ffordd y gwneir y penderfyniad.

Ymhlith manteision AEI mae ei fod yn cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob sector o sut gall penderfyniadau gael effaith ar iechyd, gwella iechyd neu ei liniaru, a thrwy hynny leihau'r galwadau ar wasanaethau iechyd a hyrwyddo mwy o degwch. Dylai AauEI ystyried anghydraddoldebau a'u heffeithiau a'u dosbarthiad ar ystod o grwpiau bregus yn systematig, p’un a yw’n gysylltiedig ag incwm, neu’n grwpiau dan anfantais gymdeithasol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o AEI, mae Canllawiau WHIASU (2012) yn argymell ei fod yn cael ei gynnal ymlaen llaw - yn cael ei wneud yn ddigon hwyr yn y broses ddatblygu i lwyr ddeall natur y datblygiad ond yn ddigon cynnar i ddylanwadu ar ei ddyluniad.

# 3 Sgrinio – Penderfynu a ddylid cynnal AEI

Erbyn haf 2016, roedd CSYM wedi gweithio'n llwyddiannus i drosglwyddo nifer o doiledau cyhoeddus i gyfrifoldeb cynghorau tref a chymuned, gyda'r nifer a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor wedi gostwng i 17. Dim ond 6 o'r rhain oedd ar agor trwy gydol y flwyddyn: -

| 2011 | 2016 |
|---|---|
| Aberffraw (Llys Llewelyn);<br>Amlwch, Lôn Goch;<br>Biwmares – Y Bwa a Ffordd yr Ysgol/Castell;<br>Benllech - Y Sgwâr ac Y Wendon, y traeth;<br>Brynsiencyn;<br>Porth Llechog;<br>Cemaes – Stryd Fawr a Maes Parcio'r Traeth<br>Porth Swtan;<br>Caergybi – Parc Gwledig y Morglawdd, Gwarchodfa Natur Penrhos, Swift Square, Ynys Lawd, Traeth Newry a Thraeth Penrhos ;<br>Llanddona;<br>Llaneilian;<br>Llanfairpwll;<br>Llangefni;<br>Llannerch-y-medd;<br>Porthaethwy – Y Llyfrgell/Stryd y Ffair, Y Grîn Fowlio/Ffordd y Traeth a'r Pier/San Siôr;<br>Moelfre;<br>Niwbwrch;<br>Porth Nobla;<br>Porthdafarch;<br>Traeth Coch<br>Rhoscolyn;<br>Rhosneigr;<br>Traeth Bychan;<br>Trearddur;<br>Y Fali | Porthdafarch, Caergybi<br>**Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi**<br>Maes Parcio, Trearddur<br>Maes Parcio'r Traeth, Rhoscolyn<br>Maes Parcio, Porth Swtan<br>Bull Bay, Amlwch<br>**Lôn Goch, Amlwch**<br>Llaneilian, Amlwch<br>**Maes Parcio, Llanfairpwll**<br>**Lôn y Felin, Llangefni**<br>**Llyfrgell, Porthaethwy**<br>Traeth Llanddona, Llanddona<br>**Y Sgwâr, Benllech**<br>Maes Parcio'r Traeth, Benllech<br>Traeth Coch, Pentraeth<br>Maes Parcio, Moelfre<br>Traeth Bychan, Marian-glas |

**Tabl 1: Rhestr o Doiledau Cyhoeddus dan reolaeth CSYM yn 2011 a 2016 (Mae'r toiledau mewn print tywyll yn agored drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag yn dymhorol rhwng 15 Mawrth a 30 Medi).**

Er bod cyllideb cyfleustodau cyhoeddus Ynys Môn wedi gostwng i £187,740 erbyn 2016, roedd unwaith eto'n dod dan bwysau. Mewn datganiad i'r wasg gan y Cyngor, dyddiedig 20fed o Fai 2016, cynigiwyd y cyfle i gynghorau tref a chymuned gynnal gweddill y toiledau cyhoeddus a datganodd Prif Swyddog Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo Ynys Môn: -

*"Rydym yn mynd i orfod gwneud llawer o benderfyniadau anodd ar flaenoriaethau ariannu cyn ein cyllideb nesaf ac oherwydd nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor Sir i redeg toiledau cyhoeddus, maent unwaith eto dan y chwyddwydr."*

*"Nid oes unrhyw un eisiau gweld toiledau cyhoeddus yn cau ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n galed gyda chynghorau lleol a phartneriaid eraill i ddiogelu llawer ohonynt. Rydym yn gobeithio y bydd yna gryn ddiddordeb yn y cynnig newydd ac y byddwn yn gallu gweithio gyda chymunedau i sicrhau bod cymaint o doiledau cyhoeddus ag sy'n bosibl yn cael eu cadw ar agor."*

Ysgrifennodd y Cyngor at bob cyngor lleol perthnasol yn cynnig cyfle iddynt gynnal toiledau cyhoeddus fel adnodd cymunedol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb erbyn Gorffennaf 1af 2016 ac roedd y Cyngor yn bwriadu trosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r 1af o Ebrill 2017. Cynigiwyd cymhelliant i helpu unrhyw drosglwyddo ac roedd hwn yn debyg i'r hyn a fabwysiadwyd mewn safleoedd eraill.

Roedd yn amlwg o'r uchod ei bod yn ymddangos bod awydd cryf gan y Cyngor Sir i gadw cyfleusterau ar agor. P'un a oedd ei benderfyniadau'n gywir ai peidio, nid oedd y broses arfarnu'n cael ei chynnal o ran strategaeth toiledau; yn wir, ni allai fod, oherwydd nid oedd y canllawiau perthnasol wedi'u cynhyrchu eto. Felly, yn absenoldeb canllawiau swyddogol ar strwythur strategaeth toiledau, roedd yn ymddangos bod cyfiawnhad cryf dros ddilyn dull AEI.

Roedd cryn dipyn o dystiolaeth eisoes yn dangos cysylltiad cryf rhwng cau toiledau cyhoeddus a chanlyniadau iechyd anfwriadol. Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun wedi casglu cryn dipyn o dystiolaeth ar y pwnc. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol " Goblygiadau iechyd cyhoeddus o gyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol - adroddiad tystiolaeth" (2012). Roedd

costau iechyd y cyhoedd ac amgylcheddol y cyfleusterau toiled annigonol a amlygwyd gan yr ymchwiliad yn cynnwys: -

- gallai effeithiau darparu toiledau cyhoeddus annigonol gynnwys straen, arwahanrwydd, iselder ysbryd, llai o symudedd, effeithiau ar swyddogaeth y bledren a'r coluddyn, dadhydradu, heintiau llwybr wrinol a lledaeniad heintiau;
- efallai y bydd effaith ddilynol ar y GIG ac ar wasanaethau eraill;
- mae effaith crebachu'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn debygol o fod yn anghymesur, gan effeithio ar rai grwpiau yn fwy nag eraill, er enghraifft pobl hŷn, y rheini â chyflyrau iechyd penodol, pobl anabl a rhieni neu ofalwyr â phlant ifanc;
- gall darpariaeth annigonol hefyd gael effaith negyddol ar strategaethau a fwriedir i gynyddu cerdded a gweithgareddau awyr agored eraill, a bod yn fodd i bobl hŷn neu bobl anabl aros yn annibynnol a symudol.

O'r herwydd, ym mis Rhagfyr 2015, cyflwynodd yr awdur gynnig i WHIASU ar gyfer cynnal Asesiad Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd o Ddarparu Toiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn. Nod yr AEI fyddai edrych ar p'un a oedd angen parhau i ddarparu toiledau cyhoeddus ar Ynys Môn, gyda'r bwriad y byddai hyn yn cefnogi unrhyw Asesiad o Anghenion Strategaeth Toiledau sydd i ddod, a gyflwynir gan Fil Iechyd y Cyhoedd yn y dyfodol.

# 4 Y Cwmpas a’r Fethodoleg – Penderfynu ar y ffocws a’r cynllun gwaith

Wrth gwmpasu'r Asesiad hwn o’r Effaith ar Iechyd, roedd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y canllawiau a gynhwysir yng Nghanllawiau Ymarferol WHIASU (2012) sydd ar gael ar wefan WHIASU (www.whiasu.wales.nhs.uk ).

**Y Cynnig**

Cynigiwyd y penderfyniad i gynnal Asesiad Cynhwysfawr o Effaith ar Iechyd (AEI) i WHIASU, fel rhan o asesiad Cymhwysedd. Er nad oedd gwasanaeth yr awdur (Gwarchod y Cyhoedd) yn gyfrifol am ddarparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn, roedd llawer o'r canlyniadau anfwriadol fel baeddu strydoedd neu arwahanrwydd (e.e. grwpiau bregus sy'n teimlo nad oeddynt yn gallu mynd allan heb sicrwydd bod toiledau cyhoeddus ar gael iddynt eu defnyddio) yn themâu iechyd cyhoeddus cyfarwydd. At hynny, gallai'r gwaith gefnogi'r Asesiad Anghenion y strategaeth toiledau cyhoeddus a gynigir gan y Bil Iechyd y Cyhoedd. Byddai'r asesiad yn cynnwys: -

- Cynnal adolygiad llenyddiaeth gan ddefnyddio *Google* a *Google Scholar* i chwilio am ganlyniadau iechyd cau toiledau cyhoeddus, a mynd ar drywydd ffynonellau pellach o restrau cyfeirio ffynonellau llenyddiaeth dibynadwy. [Yn y pen draw, canfuwyd mai llenyddiaeth lwyd gan sefydliadau a chyrff llywodraethol oedd y ffynhonnell dystiolaeth sylfaenol yn hytrach na phapurau a adolygwyd gan gymheiriaid]. Ystyrir y dystiolaeth o fewn prif naratif yr asesiad yn adran 7.
- Cysylltu â gwahanol arbenigwyr AEI ac Iechyd y Cyhoedd gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ofyn am dystiolaeth lenyddol.
- Trefnu gweithdy cyfranogol hanner diwrnod ar Asesiad cyflym o’r Effaith ar Iechyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel pobl hŷn, rhieni â phlant ifanc, twristiaid, y gwasanaeth darparwyr a chynrychiolwyr cymunedol. Câi'r gweithdy ei ddefnyddio i bennu cwmpas yr AEI cynhwysfawr manylach - a drafodir ymhellach yn adran 6.
- Nodi'r proffil cymunedol, gan archwilio tystiolaeth feintiol.

- Cynnal grwpiau ffocws gyda sefydliadau sy'n cyflogi gweithluoedd peripatetig e.e. Gwasanaeth Post, cwmni cludiant a bysus / bysus pleser i gael tystiolaeth ansoddol o effeithiau posib.
- Cyfweliad dros y ffôn a thrafodaeth wedi hynny trwy e-bost gyda sefydliadau sy'n gyfrifol am gynnal yr A55 (C) a mudiad sy'n gweithio gyda phobl ddigartref i gael tystiolaeth ansoddol o effeithiau posib.

**Adnoddau.**

Ni ddarparwyd unrhyw gyllid benodol ar gyfer cynnal yr AEI a byddai'r Adain Iechyd yr Amgylchedd yn tynnu ar ei hadnoddau ei hun i ddarparu cyfrifoldebau gweinyddol ac awduraeth, tra bod disgwyl i nifer gyfyngedig o wasanaethau eraill o fewn y Cyngor gefnogi'r rôl hon trwy ei gwneud yn bosib i swyddogion penodol fynd i gyfarfodydd rheolaidd Grŵp Llywio'r AEI a'r gweithdai cyfranogol. Gofynnwyd i'r unigolion a ganlyn yn yr awdurdod gymryd rhan yn y grŵp llywio.

- Huw Arfon Thomas - Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd (Gwarchod yr Amgylchedd).
- Ms Carys Roberts - Uwch-swyddog Rheoli Gwastraff (Swyddog sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn).
- Mr Nigel Clark - Prif Syrfëwr Adeiladau, yr Adran Eiddo.
- Mr Dewi Lloyd - Yn cynrychioli'r adran Economaidd a Thwristiaeth.

Estynnwyd gwahoddiad i arbenigwr o Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd ddod i'r grŵp llywio, er y byddai hyn ar sail fwy ad hoc na'r gwahoddiad a estynnir i aelodau eraill y grŵp llywio. Ar ôl cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio ar yr 11eg o Chwefror cytunwyd ar y cwmpas ganlyn.

**Amserlenni.**

I ddechrau, amcangyfrifwyd y gellid cwblhau'r AEI erbyn Gorffennaf 2016, er y cafodd y dyddiad cau ei ymestyn i 31ain o Ragfyr 2016. Mae rhaglen ddangosol ar gyfer y dyddiad cau gwreiddiol i'w gweld yn Atodiad 1, ond hanner ffordd drwy'r rhaglen hon (yr 16eg o Fawrth 2016) methodd Bil Iechyd y Cyhoedd gael cymeradwyaeth angenrheidiol y Cynulliad. Cafodd hyn effeithiau posib enfawr ar y cyd-destun polisi a chanlyniad yr AEI, a thaflodd amheuaeth dros yr holl ymarfer. Yn ffodus, o fewn yr amserlen estynedig, cafodd y Bil Iechyd y Cyhoedd ei ailddrafftio a'r Datganiad Polisi

ei osod gerbron y Cynulliad y 7fed o Dachwedd 2016. O ganlyniad, unwaith eto, gellid ystyried yr AEI yn erbyn cefndir o achos tebygol o gyflwyno'r angen am doiledau cyhoeddus yn y dyfodol agos.

**Ffiniau Graffigol**

Câi’r AEI ei gyfyngu i ardal Cyngor Sir Ynys Môn a byddai'n ystyried toiledau cyhoeddus a gaiff eu cynnal a'u gweithredu gan Gynghorau Sir a Chymuned. Ar wahân i fusnesau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ni chafodd cyfleusterau preifat mewn siopau a chaffis oedd ar gael i’r cyhoedd eu defnyddio eu cynnwys yng nghwmpas yr AEI.

**Cyfraniad y Gymuned.**

Yn y cynnig cychwynnol, y bwriad oedd llunio holiadur syml yn seiliedig ar fersiwn a ddatblygwyd gan y ‘‘P’ for People Campaign’ (2011). Senedd Pobl Hŷn Cymru Câi ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned a sefydliadau sydd â diddordeb mewn Toiledau Cyhoeddus, gan gynnwys proffesiynau, e.e. Gyrwyr lorïau a thacsis ac ati. Fodd bynnag, disodlwyd y dull gweithredu hwn yn y pen draw gan grwpiau ffocws wedi'u targedu gyda Gweithwyr Post, Cwmni Cludiant a Bysus Pleser oherwydd ystyriwyd y ceid gwell adborth, yn enwedig pan gafwyd hefyd weithdai hanner diwrnod gyda rhanddeiliaid ehangach.

# 5 Proffil Cymunedol

## 5.1 Demograffeg Ynys Môn

Cynhaliwyd y cyfrifiad diwethaf ar gyfer Cymru a Lloegr y 27ain o Fawrth 2011. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae poblogaeth Ynys Môn wedi parhau'n gymharol sefydlog. Yn y cyfnod canol rhwng 1996 a 2006, cynyddodd y boblogaeth 0.4% yn unig o gymharu â 2.6% yng Nghymru yn gyffredinol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008). Roedd y rhaniad o 49% o ddynion a 51% o ferched yn debyg i gyfartaledd Cymru (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2011).

| Blwyddyn y Cyfrifiad | Dynion | Merched | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1991 | 33,568 | 35,581 | 69,149 |
| 2001 | 32,817 | 34,989 | 67,806 |
| 2011 | 34,274 | 35,477 | 69,751 |

**Tabl 2: Poblogaeth Ynys Môn 1991 – 2011 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2011))**

Datgelodd data Cyfrifiad 2011 fod 22.4% o boblogaeth yr Ynys dros 65 oed, yr oedran ymddeol arferol ar gyfer dynion a merched. Er gwaethaf hyn, roedd 65% o'r boblogaeth yn cael eu hystyried yn economaidd weithgar yn 2011. O gofio bod 60.6% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2011), dengys hyn bod cyfran sylweddol o boblogaeth yr ynys yn gweld bod angen iddynt weithio ymhell i'r oedran ymddeol arferol neu eu bod yn dymuno gwneud hynny. Amcangyfrifir gan Ragolygon Poblogaeth Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru (2016) y rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn disgyn bron i 2,000 (neu 2.6 y cant) rhwng 2014 a 2039. Er bod y cwymp hwn wedi'i gyfyngu'n bennaf i grwpiau oedran iau, rhagwelir y bydd nifer y bobl 75 oed neu hŷn yn cynyddu tua 5,500.


Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2010 - 2014) yn amcangyfrif bod disgwyl i bobl Ynys Môn fyw hyd nes y byddant yn 78.6 oed (dynion) ac 82.9 oed (merched) o'i gymharu â 78.3 oed a 82.3 oed ar gyfer Cymru.

Dangosodd y proffil Rhanbarthol Economaidd a’r Farchnad Lafur - Gogledd Cymru (Tachwedd 2016) mai cyfradd cyfrif hawlwyr budd-daliadau ar gyfer Ynys Môn oedd yr uchaf yng Ngogledd Cymru ar 2.8%, ac mai 4.9% oedd y gyfradd diweithdra, yr un gyfradd â Gwynedd. Er bod y gyfradd diweithdra'r uchaf yng Ngogledd Cymru, mae'n parhau i fod fymryn yn is na lefelau Cymru (5%) a'r DU (5.1%). Roedd y Gwerth Ychwanegol Gros y pen fel canran o gyfartaledd y DU yn 53.5% yn Ynys Môn yn 2014, yr isaf yng Ngogledd Cymru. Er gwaethaf hyn, roedd gan Ynys Môn yr enillion wythnosol cyfartalog uchaf (108.2%) yng Ngogledd Cymru ac incwm gwario gros uchaf aelwydydd ar 90.4%, sy’n awgrymu bod trigolion sy’n teithio oddi ar yr ynys i weithio yn cael effaith ar lefel y GYG o £13,162 y pen yn Ynys Môn ac yn nhabl 3 isod ceir dadansoddiad o gyflogaeth fesul sector ar Ynys Môn yn 2011 (Conwy, 2011).

| Diwydiant Cyflogaeth | Nifer | % |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 932 | 3.1% |
| Mwyngloddio, chwarela, ynni, dŵr | 1236 | 4.1% |
| Gweithgynhyrchu | 2335 | 7.7% |
| Adeiladu | 2687 | 8.8% |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 4380 | 14.4% |
| Cludiant a storio | 1597 | 5.2% |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 2086 | 6.9% |
| Cyfathrebu, cyllid, eiddo | 1136 | 3.7% |
| Proffesiynol, gwyddonol, technegol | 1091 | 3.6% |
| Gwasanaethau gweinyddol a chymorth | 978 | 3.2% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 2754 | 9.0% |
| Addysg | 3401 | 11.2% |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 4553 | 15.0% |
| Arall | 1265 | 4.2% |

**Tabl 3: Cyflogaeth ar Ynys Môn fesul sector (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2011))**

Dengys ffigwr 2 a ganlyn o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ganran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi yn 2007/08 ar draws Gogledd Cymru, a disgrifir "tlodi" fel bod gan unigolyn llai na 60% o incwm aelwydydd cyfartalog net canolrifol y DU (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Ebrill 2012)).




**Ffigwr 2: Map yn dangos dosbarthiad tlodi ar draws Gogledd Cymru.**

Dengys y darlun bod gan ran helaeth o ranbarth canolog yr ynys (gan gynnwys tref Llangefni) gymaint â 24.7 - 30.3% o gartrefi sy'n dod o fewn y diffiniad hwn o "dlodi",

## 5.2 Proffil Teithio.

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd (Gorffennaf 2011) yn nodi

***"Mae nifer y ceir fesul cartref ar Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n adlewyrchu natur wledig Ynys Môn a dibyniaeth ar y cerbyd preifat. Y car yw'r dewis ddull cludo ar gyfer teithio i'r gwaith, fodd bynnag mae gan Ynys Môn nifer uwch o bobl sy'n gweithio o gartref na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae oddeutu 85% o deuluoedd yr Ynys o fewn pellter cerdded i gludiant cyhoeddus, ond yn aml nid oes gwasanaeth cludiant cyhoeddus rheolaidd mewn rhai ardaloedd. "***

Mae'r adroddiad yn mynd rhagddo i nodi pe bai'r categori cartref yn cael ei ddileu, roedd y rheini sy'n teithio i weithio mewn car yn 2001 yn cyfrif am 80.9% o'r

boblogaeth sy'n gweithio tra bod y cyfartaledd cenedlaethol yn 77.7%. Mae'r ddibyniaeth hon ar y car yn golygu bod cyfran fawr o drigolion Ynys Môn yn teithio pellteroedd sylweddol i weithio. Mae Bangor yn ganolfan gyflogaeth bwysig gyda'i ysbyty mawr, y Brifysgol a swyddfeydd rhanbarthol ar gyfer Asiantaethau'r Llywodraeth megis Adnoddau Naturiol Cymru. Gallai'r rhain, ynghyd â llawer o'r busnesau masnachol / manwerthu, gyfrif am gyfran sylweddol o'r cymudwyr hyn.

## 5.3 Proffil Amddifadedd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 yw ffordd swyddogol Llywodraeth Cymru ei hun o asesu lefel gymharol amddifadedd ardaloedd bychain. Mae'r Mynegai wedi'i adeiladu o swm a bwysolwyd o'r sgôr amddifadedd ar gyfer pob maes. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel agwedd ar amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Mae'r meysydd a'r pwysoliadau ar gyfer MALIC 2014 fel a ganlyn:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | 23.5% | | Mynediad daearyddol at wasanaethau | 10% |
| Cyflogaeth | 23.5% | | Diogelwch cymunedol | 5% |
| Iechyd | 14% | | Amgylchedd Ffisegol | 5% |
| Addysg | 14% | | Tai | 5% |

**Tabl 4. Pwysoliadau Meysydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, (SYG 2016)**

Eglura Dogfen Ganllawiau (2014)[1] MALIC mai'r hyn yw Amddifadedd yw:-
*"diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a restrir uchod yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol - bwyd, dillad a chysgod - i gynnal safon byw benodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned".*

[1] http://gov.wales/statistics/2015//150812-WIMD-2-14-revised-cyf.pdf

Cynhyrchir y Mynegai fel set o sgorau, o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig). Y bwriad yw i bob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is fod â phoblogaeth gyfartalog o 1,600 o bobl. Dyluniwyd ACEHI gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel y byddai ganddynt boblogaethau o faint cyson a daearyddiaeth sefydlog, fel y gellid gwneud cymariaethau ystadegol o ardaloedd bychain dros amser. Ar Ynys Môn, mae'r ACEHI yn cyfateb yn fras i Wardiau'r Cyngor Cymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio’r sgorau mynegai i nodi 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r rhain yn cyfateb i'r ACEHI hynny yn 1 - 191. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw’r holl bobl ddifreintiedig yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a dim ond tua 1 o bob 5 o'r aelwydydd hynny sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm sy’n byw yn 10% yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ffigwr 3 a ganlyn yn dangos yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru fel y'u nodir gan ddefnyddio'r MALIC. Yn Ynys Môn, mae 2.3% o'r 44 ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae 15.9% o fewn yr 20%, 18.2% o fewn y 30% a 45.5% o fewn yr 50%.




**Ffigwr 3: Mynegai Amddifadedd Cymru 2014.**

Mae'r maes Mynediad at Wasanaethau yn rhoi syniad o'r amser a gymerir gan bobl sy'n byw mewn ACEHI penodol i gyrraedd y gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r maes yn cwmpasu amddifadedd materol (er enghraifft, methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (er enghraifft, methu mynd i weithgareddau ar ôl ysgol). Mae'n mesur amseroedd teithio i ystod o wasanaethau mewn dull gwahanol ar gyfer mynediad ehangach at wasanaethau, ond nid yw'n ystyried a yw unigolion yn gallu cael at y gwasanaethau hyn neu'n dymuno gwneud hynny. Cyfrifir y maes o'r dangosyddion a ganlyn: -

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i siop fwyd;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i feddygfa;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i ysgol gynradd;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i ysgol uwchradd;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i swyddfa bost;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i lyfrgell gyhoeddus;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i ganolfan hamdden;

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant cyhoeddus a phreifat i fferyllfa; ac

• amser teithio cyfartalog gyda chludiant preifat i orsaf betrol.

Yn aml, gwelir bod cymryd mwy o amser i deithio i wasanaethau yn ganlyniad i fyw mewn ardal wledig ac nid yw Ynys Môn yn eithriad. Pan wnaed ymholiadau â Phrif Arolygydd Adeiladau'r awdurdod lleol (Adran Gwasanaethau Eiddo) nodwyd bod gan saith safle yn Swyddfa'r Cyngor, pedair canolfan hamdden, tair llyfrgell ac un oriel gelf gyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio: -

| Swyddfeydd | Canolfannau Hamdden |
|---|---|
| Pencadlys Llangefni,<br>Neuadd y Sir, Llangefni (Cofrestrydd),<br>Canolfan Fusnes, Bryn Cefni, Llangefni.<br>Yr Archifdy, Stad Ddiwydiannol Llangefni.<br>Canolfan Byron (Stad Ddiwydiannol Mona)<br>Canolfan Jimmy O'Toole, Caergybi<br>Canolfan Jesse Hughes Caergybi | Canolfan Hamdden Plas Arthur<br>Canolfan Hamdden Caergybi<br>Canolfan Hamdden David Hughes<br>Canolfan Hamdden Amlwch |
| **Llyfrgelloedd** | **Orielau** |
| Porthaethwy<br>Caergybi<br>Llangefni | Oriel Môn |

**Tabl 5. Eiddo'r Cyngor ac ynddynt doiledau cyhoeddus**


O gofio bod llawer o'r adeiladau uchod (gan gynnwys canolfannau hamdden a llyfrgelloedd) yn darparu dewisiadau amgen i doiledau cyhoeddus a bod llawer o gyfleusterau preifat eraill wedi'u lleoli mewn sefydliadau manwerthu, mae'r maes hwn yn cynnig mesur gwahanol da i'r cyhoedd gael defnyddio toiledau. Mae 11 o 44 ACEHI Ynys Môn (poblogaeth o tua 17,600 o bobl) o fewn yr 191 (10%) ardal fwyaf difreintiedig yn seiliedig ar Fynediad at Wasanaethau yn MALlC 2014, gyda Rhosyr yn syrthio ychydig y tu allan ar 193. Yn Nhabl 6 ceir rhestr o'r ACEHI mwyaf difreintiedig ar Ynys Môn yn seiliedig ar Fynediad at Wasanaethau ac yn Ffigwr 4 dangosir y sefyllfa gyffredinol yng Nghymru.

| Anw'r ACEHI | Mynediad at Wasanaethau |
|---|---:|
| Llannerch-y-medd | 44 |
| Llanfaethlu | 56 |
| Llangoed | 69 |
| Mechell | 77 |
| Trearddur 1 | 123 |
| Bodorgan | 150 |
| Llanddyfnan | 152 |
| Llanfair-yn-Neubwll 2 | 168 |
| Bodffordd | 175 |
| Llaneilian | 179 |
| Pentraeth | 186 |

**Tabl 6. ACEHI mwyaf difreintiedig ym Môn yn seiliedig ar Fynediad at Wasanaethau**

Bydd llawer o'r rheiny sy'n byw yn ardal ganolog Ynys Môn, y byddai gofyn iddynt fedru defnyddio toiledau cyhoeddus yn rheolaidd, yn cael anhawster mawr i wneud

hynny pan fyddant allan yn eu cymunedau lleol. Gallai pobl nad ydynt yn gallu defnyddio’u cludiant eu hunain ac sy’n ddibynnol ar gludiant cyhoeddus fod yn llawer mwy difreintiedig, gan y gallent fod yn fwy dibynnol ar eu hardal leol am wasanaethau a chyfleoedd ymarfer corff. Serch hynny, nid yw llawer o'r ardaloedd hyn wedi cael toiledau cyhoeddus o fewn cof diweddar neu, fel yr achos yn Llannerch-y-medd, mae eu toiledau cyhoeddus wedi cau’n ddiweddar.





**Ffigwr 4. Mynediad at Feysydd Gwasanaeth.**


## 5.4 Proffil Iechyd Ynys Môn

Datgelodd Arolwg Iechyd Cymru 2011 (Llywodraeth Cymru 2012) fod 14% o oedolion Cymru yn nodi eu bod yn cael triniaeth ar hyn o bryd am salwch anadlu, 11% am salwch meddwl a 9% am gyflwr y galon heblaw am bwysedd gwaed uchel. Canfu Cyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr fod 5.6% o breswylwyr yng Nghymru a Lloegr wedi nodi bod eu statws iechyd cyffredinol yn ddrwg neu'n ddrwg iawn. Y ffigwr yr adroddwyd arno ar gyfer Cymru oedd 7.6% ac roedd hyn yn uwch nag unrhyw un o'r rhanbarthau yn Lloegr (BIP Betsi Cadwaladr, 2013). Er bod Ynys Môn yn ymddangos yn llawer is na chyfartaledd Cymru (yn enwedig Cymoedd y De a Merthyr) mae'r lefel yr adroddir arno, sef 6.3%, yn parhau'n uwch na llawer o ranbarthau yn Lloegr.

**Ffigwr 5**




**Ffigwr 6.**





O ran canran y trigolion yr oedd eu gweithgarwch dyddiol yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd tymor hir (gan gynnwys problemau henaint), ar 23.1%, mae ffigwr Ynys Môn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (Cymru 22.7% a Lloegr 17.6%).

**Ffigwr 7**



Er bod nifer y trigolion â phroblemau iechyd tymor hir neu anabledd sy'n cael effaith ar eu gweithgarwch dyddiol fymryn yn uwch yn unig yn Ynys Môn o'i gymharu â gweddill Cymru, mae'n amlwg o ffigwr 8 a ganlyn bod yno nifer o feysydd o amgylch ymyl yr arfordir, gan gynnwys Ynys Gybi, lle mae hyn yn sylweddol uwch.
Mae llawer o stoc toiledau cyhoeddus presennol Ynys Môn yn y cyrchfannau gwyliau arfordirol, er yn bennaf ar sail dymhorol. Er nad yw ystadegau Cyfrifiad 2011 yn nodi'n benodol unigolion sydd angen defnyddio toiledau yn amlach, maent yn cynnwys "problemau sy'n gysylltiedig ag henaint" a bydd cyfran sylweddol o'r trigolion hyn yn cael problemau gyda mynd i'r toiledau. O'r herwydd, gellir casglu brasamcan o gyflyrau penodol rhai pobl hŷn.




**Ffigwr 8.Trigolion y cyfyngir ar eu gweithgarwch dyddiol ychydig neu lawer oherwydd salwch tymor hir neu anabledd. Mawrth 2011**

O ran yr AEI hwn, rhagwelir mai problemau ymataliaeth yw'r cyflyrau sy'n fwyaf tebygol o gael effaith ar bobl sy'n defnyddio toiledau. Yn ôl pecyn gwybodaeth Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan i aelodau'r Cynulliad "The indignity of incontinence" (2011): -

*"As a long-term condition, incontinence can affect all aspects of a person's life. Some individuals must 'toilet map' on every outing, planning their trip around their condition, even when just popping out to the shops ….It is the second most likely reason for a person to end up in long term care, and is linked with depression, often leaving*

*patients feeling socially isolated by their condition. This negative impact on people's lives is well understood".*

Awgrymodd Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan (2011) y gallai amcangyfrifon cyfredol o 150,000 o bobl sy'n dioddef anymataliaeth yng Nghymru fod yn rhy isel a gallai'r ffigwr fod yn llawer uwch, gydag amcangyfrif ceidwadol yn rhoi nifer symptomau rheolaidd y Bibell Wrinol Isaf (LUTS) mewn dynion 40+ oed yn y DU ar 47%, gyda'r nifer ymhlith merched 40+ oed ar 46%. Mae Tabl 7 isod yn dangos sut mae hyn yn berthnasol ar draws byrddau iechyd Cymru.

| Bwrdd Iechyd | Lefel bras LUTS dynion 40+ix, x | Lefel bras LUTS merched 40+ix, x |
|---|---|---|
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 58,000 | 64,000 |
| Aneurin Bevan | 65,000 | 71,000 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 81,000 | 89,000 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 44,000 | 49,000 |
| Cwm Taf | 32,000 | 35,000 |
| Hywel Dda | 46,000 | 51,000 |
| Addysgu Powys | 18,000 | 19,000 |

**Tabl 7. Lefel LUTS ar draws byrddau Iechyd Cymru**

O gofio bod cyfran Ynys Môn dros 75 yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y 15 mlynedd nesaf a bod 25% o'r boblogaeth yn byw yn y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yn ôl Mynediad at Wasanaethau, dylem ddisgwyl y byddai priner toiledau digonol yn cael effaith sylweddol ar eu hymdeimlad o annibyniaeth. Yn ogystal, yn ôl ffigyrau Cyfrifiad 2011, roedd gan Ynys Môn 4,802 o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain. Gan fod problemau ymataliaeth yn cael effaith ar bob grŵp oedran, gellid cael effaith ar lawer mwy o'r 9,888 o gartrefi un person yn Ynys Môn. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, os tybiwyd amcangyfrifon Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan, efallai y byddai gan ryw 46% o bobl dros 40 oed Ynys Môn ryw gymaint o LUTS a fyddai'n golygu bod angen mynd i'r toiled yn rheolaidd. Mae Canllawiau NICE (2010) wedi awgrymu y gall LUTS trafferthus godi ei ben mewn hyd at 30% o ddynion dros 65 oed a'i fod yn faich mawr i'r boblogaeth wrywaidd sy'n heneiddio. Mae'n anochel y bydd hyn yn bwrw rhywfaint o amheuaeth ar y ffigyrau cynharach gan Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan. Serch hynny, mae nifer o drigolion Ynys Môn sy'n debygol o fod yn dioddef o LUTS yn debygol o fod yn uchel iawn, rhywbeth sy'n cael effaith sylweddol ar eu hanghenion o ran mynd i'r toiled.

Felly, bydd gweddill yr AEI hwn yn ceisio ystyried pa feysydd o fregusrwydd penodol a allai fod ar Ynys Môn, sut i liniaru yn erbyn canlyniadau cau rhagor o doiledau cyhoeddus a pha ddulliau y gellid eu defnyddio i'w gwneud yn haws defnyddio toiledau preifat mewn sefydliadau manwerthu ac ati. Cyflawnir hyn drwy archwilio tystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid (ee grwpiau ffocws a gweithdai cyfranogol) a thystiolaeth feintiol a gasglwyd drwy gynnal adolygiad o lenyddiaeth.

# 6 Cyfraniad Rhanddeiliad

## 6.1 Asesiad Cyflym o’r Effaith ar Iechyd

Y 19eg o Ebrill 2016 gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl hŷn, rhieni â phlant ifanc, twristiaid, y gwasanaeth darparwyr a chynrychiolwyr cymunedol i gymryd rhan mewn Gweithdy Cyfranogol hanner diwrnod yn archwilio **"effeithiau yn sgil gostyngiad yn y toiledau cyhoeddus oedd ar gael i’r cyhoedd eu defnyddio ac a ddarperir gan y sector cyhoeddus ".** Cynhaliwyd y digwyddiad yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni ac fe'i hwyluswyd gan yr awdur gyda Swyddog Graddedig Iechyd yr Amgylchedd yn cynorthwyo fel ysgrifennydd. Dilynodd y gweithdy'r dull a amlinellwyd ym mhecyn cymorth yr awdurdod lleol ar gyfer asesu’n gyflym yr effaith ar iechyd (CSYM, 2009) a chynhwysir copi o'r rhestr wirio wedi'i chwblhau yn Atodiad 2. Rhoddwyd papur briffio byr i randdeiliaid cyn y digwyddiad a chyflwynodd yr awdur gefndir byr i'r prosiect ar y dechrau. Taflwyd llun y rhestr wirio ar sgrîn uwchben a chynorthwyodd Swyddog Graddedig Iechyd yr Amgylchedd fel ysgrifennydd, yn nodi ar y tabl ar y sgrîn y sylwadau y cytunwyd arnynt. Ar ôl y digwyddiad, rhannwyd y templed a gwblhawyd gyda'r bobl oedd yno fel bod modd cywiro’r wybodaeth, ond ni dderbyniwyd unrhyw sylw pellach.

Nododd rhanddeiliaid bod angen i bobl hŷn ddefnyddio toiledau yn amlach, gan fod ganddynt yn aml gyflyrau meddygol neu eu bod ar feddyginiaeth. Yn wir, mae Lavioletter (2012) yn datgan y gall gweithrediad y system wrinol waethygu oherwydd meddyginiaeth a gymerir i wrthsefyll salwch cronig arall sy'n gysylltiedig â'r broses heneiddio, gan gynnwys; methiant y galon, rhai mathau o ganser, clefyd Parkinson a chlefyd Alzheimer, er bod gweithrediad y system yn dieywio gydag oedran. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod bod gan bobl hŷn lai o symudedd, gan ei gwneud yn bwysicach bod toiledau ar gael ym mron pob eithriad, ac eithrio’r rhai ag anableddau neu blant ifanc. Mae Lavioletter (2012) yn cadarnhau bod toiledau y mae modd I’r cyhoedd eu defnyddio’n un o'r prif broblemau sy'n wynebu llawer o bobl sy'n rheoli cyflyrau ymataliaeth, naill ai fel sefyllfa dros dro neu fel pryder iechyd cronig mwy tymor hir.

Cred rhanddeiliaid gweithdai y gallai gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, bysus neu fysus pleser fod yn amharod i yfed digon er mwyn lleihau'r angen i gymryd egwyl i

fynd i’r toiled. Bydd hyn yn achosi iddynt ddadhydradu, a allai arwain at lai o ganolbwyntio a mwy o berygl o gael damweiniau traffig ar y ffyrdd. Roedd grwpiau ffocws i'w cynnal gyda Chwmni Cludiant a Chwmni Bysus, lle'r oedd hi'n bosib treiddio’n ddyfnach i'r pynciau hyn a bydd y canlyniadau'n cael eu trafod yn nes ymlaen.

Efallai y bydd pobl hŷn yn ofni mynd am dro os nad oes toiledau ar hyd y ffordd, gan arwain at ostyngiad mewn gweithgaredd corfforol a gwendid, gan gynyddu'r risg o gael codwm, gyda goblygiadau dilynol i'r GIG. Yn wir, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi bod darparu toiledau cyhoeddus yn hanfodol i’w raglen "Dinasoedd sy’n Gyfeillgar i Oed" (Patrick Lavioletter, Mai 2012).

Roedd y gweithdy’n unfrydol yn ei farn na fyddai’r ffaith bod llai o gyfleusterau ar gael yn cael effaith ar ddewis teulu i ymweld â rhai ardaloedd. Yn wir, y canfyddiad oedd bod cyfleusterau preifat yn fwy modern a bod ganddynt gyfleusterau gwell i famau â babanod. Roedd awydd cryf y dylid cynnal unrhyw ymgynghoriad ar gau toiledau cyhoeddus yn gywir, fel arall gallai cymunedau gael eu dadrithio gyda'r awdurdod lleol a theimlo ei fod yn wasanaeth / cyfleuster arall sydd eto fyth yn diflannu. Fel arall, mae'n gyfle i'r cyngor ymgynghori gyda'r cyhoedd ac i ymgysylltu neu drafod dyfodol y gwasanaeth.

Derbyniwyd yn gyffredinol fod yna fodelau cyflenwi amgen megis cyfleusterau cymunedol ac roedd yn rhesymol codi rhyw gymaint am ail-lenwi cynhyrchion megis papur toiled a sebon. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd toiledau gwael o fudd i neb gan y gallant ddenu fandaliaeth, sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyrwyddo ofn cyffredinol trosedd. Cydnabuwyd y gallai rhai trigolion sy'n byw ger toiledau cyhoeddus fod yn gobeithio y cânt eu cau a gallai hyn arwain at raniad yn y cymunedau rhwng y rhai sydd am gael toiledau cyhoeddus a'r rhai nad ydynt. Mae rhai o'r cyfleusterau sydd wedi’u cau wedi'u troi'n gartrefi y mae angen mawr amdanynt e.e. Ynys Lawd, Caergybi a Llannerch-y-medd. Gallai cau toiledau hefyd ddirwyn i ben broblemau ynghylch tanciau septig a achosir gan rai toiledau cyhoeddus, ond gallai hefyd achosi mwy o faeddu strydoedd a chymryd cyffuriau mewn lleoedd mwy cyhoeddus.

Os bydd toiledau cyhoeddus yn cau, gall glanhawyr ac ati golli eu swyddi a rhoi baich mwy ar gaffis a thai bwyta. Nododd rhanddeiliaid hefyd y gallai cau toiledau cyhoeddus gael effaith ar dwristiaeth, yn enwedig os nad oes dewisiadau eraill.

Gallai hyn roi'r argraff ein bod yn ddigroeso ac efallai y bydd pobl yn mynd i rywle arall. Gallai cau toiledau gael effaith sylweddol ar y gweithlu peripatetig, (e.e. postmyn). Unwaith eto, byddai'r sylw hwn yn cael ei godi ym mhob un o'r tri grŵp ffocws, lle câi'r mater ei drafod yn fanylach.

Gellir defnyddio toiledau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ymgyrchoedd posteri wedi'u targedu a hysbysebion a all gynorthwyo cyllid. Gall rhai perchenogion caffis weld bod caniatáu i bobl ddefnyddio'u toiledau yn rhywbeth cadarnhaol i annog pobl i wario arian, ond mae gan eraill arwyddion sy'n dweud mai ar gyfer cwsmeriaid yn unig y mae'r cyfleusterau, a gallai hyn wneud i'r rhai sydd ar incwm is deimlo nad oes croeso iddynt. Mae'n hysbys bod gyrwyr bysus pleser, megis y rhai sy'n cludo teithwyr mordeithiau o Gaergybi, yn cynllunio llwybrau o amgylch toiledau. Mae rhaglenni ffonau symudol neu apiau ar gael a gellir eu defnyddio i ganfod toiledau, ond mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei holl doiledau wedi'u cofrestru.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cau toiledau cyhoeddus yn mynd yn erbyn polisïau cyhoeddus megis Datganiad Dulyn a lofnodwyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ei fwriad oedd dangos ymrwymiad ar lefel leol i greu cymunedau sy'n gynhwysol ac yn gefnogol i bawb, waeth beth fo'u oed (Age Cymru, Mai 2016).

Mae tabl 8 a ganlyn yn rhoi crynodeb o agweddau cadarnhaol a negyddol cau toiledau cyhoeddus.

**Tabl 8: Canlyniad yr Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd o ran materion cadarnhaol a negyddol a adnabuwyd**

| Cadarnhaol iawn (++) | Fymryn yn gadarnhaol(+) | Niwtral | Fymryn yn negyddol (-) | Negyddol iawn (- -) |
|---|---|---|---|---|
| | Toiledau gwael yn rhoi argraff wael<br><br>Rhai toiledau â phroblemau gyda fandaliaeth, pobl yn cymryd cyffuriau a chyda'u tanciau septig. | Gallai arwain at fwy o doiledau'n cael eu cynnwys ar apiau toiled.<br><br>Mae rhieni'n tueddu i ofyn am fwy o gyfleusterau oherwydd | Gallai gyrwyr fod yn amharod i yfed fel nad oes rhaid iddynt stopio mor aml. Gall hyn achosi iddynt ddadhydradu ac arwain at fwy o berygl o gael damweiniau traffig ar y ffyrdd. | Yn gyffredinol, mae angen i bobl hŷn ddefnyddio'r toiled yn amlach.<br><br>Mae grwpiau incwm isel yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn methu cael at gymaint o gyfleusterau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae hen flociau toiledau wedi'u troi’n dai.<br>Gall rhai perchenogion caffis weld bod caniatáu i bobl ddefnyddio’u toiled yn rhywbeth cadarnhaol i annog pobl i wario arian. | anghenion plant a babanod, ond mae'n annhebygol y bydd cau toiledau cyhoeddus yn cael effaith ar eu dewisiadau. | Gall dadhydradu mewn pobl hŷn arwain at heintiau wrinol sy'n arwain at rai afiechydon waethygu.<br><br>Gallai llai o doiledau arwain at ostyngiad mewn gweithgaredd corfforol a mwy o berygl i bobl hŷn gael codwm.<br><br>Efallai y bydd angen mwy o finiau sbwriel oherwydd baeddu mewn mannau cyhoeddus. | Mae pobl ag anableddau dysgu, gweld a chlywed yn wynebu rhwystrau iaith wrth ofyn am ddefnyddio toiledau.<br><br>Bydd gan bobl ddigartref lai o gyfleoedd i ddiwallu anghenion hylendid.<br><br>Gallai twristiaid gadw draw oherwydd nifer lai y toiledau.<br><br>Gall cau toiledau gael effaith sylweddol ar y gweithlu peripatetig. e.e. postmyn ac ati |

Casgliad y gweithdy cyfranogol.

Roedd yn amlwg o'r gweithdy cyfranogol y 19eg o Ebrill 2016 bod rhan fwyaf o bryderon y rhanddeiliaid yn ymwneud â grwpiau bregus penodol megis pobl hŷn, pobl â chyflyrau meddygol penodol, pobl ar incwm isel (yn enwedig y digartref) a'r gweithlu peripatetig. Mae tabl 9 a ganlyn yn rhoi crynodeb byr o'r materion a gafodd eu cynnwys ar gyfer asesiad pellach ar ôl y gweithdy cyfranogol. Byddai Grwpiau Ffocws Penodol yn fodd i drafod nifer o'r materion a nodwyd yn y gweithdy yn fanylach gydag unigolion oedd â mwy o brofiad yn y materion hyn.

**Tabl 9. Tabl yn dangos y materion a gafodd eu sgrinio i mewn neu allan ar ôl y gweithdy cyfranogol**

| Grwpiau bregus | Ffyrdd o Fyw Unigol | Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd | Amgylchiadau Byw ac Amgylcheddol sy'n cael effaith ar Iechyd | Amgylchiadau Economaidd sy'n cael effaith ar Iechyd | Mynediad at Wasanaethau a'u hansawdd | Ffactorau Micro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl hŷn, unigolion ar incwm isel (a / neu'r digartref), pobl â chyflyrau meddygol penodol, pobl ag anableddau dysgu, clywed a gwrando a thwristiaid | Dadhydradu - mae pobl (yn enwedig yr henoed a gyrwyr) yn osgoi yfed fel nad oes rhaid iddynt stopio i fynd i'r toiled mor aml. | Arwahanrwydd ac unigrwydd ymhlith pobl hŷn neu anabl a allai fod yn amharod i fynd allan oherwydd nad oes toiledau cyhoeddus i ddiwallu eu hanghenion. | Baeddu strydoedd, yn enwedig ar hyd yr A55(C). | Effeithiau ar dwristiaeth a gweithwyr peripatetig. | Lleihad mewn mwynderau, darpariaeth amgen gan fusnesau preifat a'r defnyddio TG. | Polisïau |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## 6.2 Grŵp Ffocws.

Mae llawer o'r materion a nodwyd gan y Rhanddeiliaid yn y gweithdy cyfranogol yn ymwneud ag effeithiau cau toiledau cyhoeddus neu ddarparu toiledau annigonol ar grwpiau bregus penodol. O'r herwydd, cytunodd y grŵp llywio y byddai grwpiau ffocws pellach yn cael eu cynnal gyda thri chwmni sy'n cyflogi unigolion sy'n gweithio i ffwrdd o rywle canolog a heb fynediad parod at gyfleusterau toiledau. Dewiswyd Gweithwyr Post i gynrychioli gweithwyr peripatetig, dewiswyd cwmni cludo i gael barn gyrwyr cerbydau nwyddau trwm ac roedd barn cwmni bysus pleser yn ddefnyddiol wrth fesur effeithiau posib toiledau annigonol ar dwristiaid a grwpiau cleient eraill

(gan gynnwys gyrwyr). Roedd y grwpiau ffocws hyn yn fach ac yn amrywio o un unigolyn yn cynrychioli busnes y bysus pleser i dri unigolyn yn y cwmni cludiant. Cyn pob cyfarfod, cysylltodd yr awdur â'r sefydliadau perthnasol dros y ffôn er mwyn cael manylion cyswllt yr unigolyn mwyaf priodol ac i anfon cais am apwyntiad. Yn ogystal, anfonwyd e-bost atynt yn amlinellu brîff y prosiect a rhoddwyd cwestiynau i'w hystyried er mwyn iddynt fod yn gymorth i'r drafodaeth. Roedd yr e-bost a ddefnyddiwyd yn debyg ym mhob achos ac mae'r wybodaeth a anfonwyd i'r Cwmni Cludiant wedi'i chynnwys yn Atodiad 3. Mae'r ymatebion manwl gan y tri grŵp ffocws wedi'u cynnwys yn Atodiad 4 ac fe'u trafodir ymhellach isod.

### 6.2.1 Materion y Grwpiau Ffocws i'w hystyried

Roedd yn amlwg o'r Grwp Ffocws gyda'r gwasanaeth post bod medru cael at doiledau'n ffactor pwysig wrth ystyried a fyddai aelod o staff â thrafferth gyda'r stumog yn gallu dod i weithio. Er bod postmyn yn datblygu perthynas gyfeillgar gyda'u grŵp cleientiaid, ni fyddai hyn yn ymestyn iddynt ofyn am ddefnyddio toiled mewn cartref rhywun. Fodd bynnag, credai'r rhai a gyfwelwyd y byddai eu cydweithwyr yn llai cyndyn o ofyn i gael defnyddio cyfleusterau mewn sefydliadau masnachol, e.e. garejys. O gofio mai dim ond chwech o doiledau cyhoeddus Ynys Môn sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn, mae'n debygol y gellid gwella'r sefyllfa bresennol ar gyfer gweithwyr peripatetig yn sylweddol trwy gynyddu ymwybyddiaeth o doiledau mewn sefydliadau masnachol, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae'r cyfleusterau ychwanegol hyn yn fwy na nifer y cyfleusterau cyhoeddus sydd ar gael fel arfer. Nid oedd yr un o'r grwpiau ffocws yn ymwybodol o fodolaeth apiau canfod toiledau ar gyfer ffonau clyfar. Archwiliwyd tri o'r apiau hyn gan yr awdur: -

Great British Public Toilet finder: https://greatbritishpublictoiletmap.rca.ac.uk/
Toilet finder: http://www.toiletfinder.org/
Flush: https://apkpure.com/flush-public-toilet-finder/toilet.samruston.com.toilet

Roedd y toiledau lleol a gofrestrwyd ar yr apiau hyn yn cael eu cynnal yn bennaf gan y Cyngor, ond doedd yr un yn cynnig rhestr gyflawn. Ychydig iawn o sefydliadau masnachol neu gyfleusterau Cynllun Toiledau Cymunedol oedd wedi'u cofrestru, os o gwbl. O'r herwydd, argymhelliad cyntaf yr AEI hwn yw bod yr Awdurdod Lleol yn

sicrhau bod pob toiled y mae modd i'r cyhoedd ei ddefnydio a'r rhai sy'n ymwneud â'r Cynllun Toiledau Cymunedol wedi'u cofrestru ar y apiau canfod toiledau. Yn sgil yr argymhelliad hwn, bydd gweithwyr peripatetig yn gallu defnyddio mwy o gyfleusterau ac ni fyddir yn ystyried y grŵp bregus hwn ymhellach.

Argymhelliad 1.

Dylai'r Awdurdod Lleol gofrestru'r holl doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio ar apiau perthnasol sy'n canfod toiledau, a sicrhau fod y wybodaeth yn gyfredol

Mae twristiaid fel grŵp o unigolion yn cynnwys grwpiau eraill bregus (fydd yn cael eu hystyried ar wahân) e.e. teuluoedd â phlant ifanc, pobl hŷn, anabl a / neu'r rhai â salwch y mae angen defnyddio toiledau'n rheolaidd arnynt. Cadarnhaodd y grwpiau ffocws farn y gweithdy, y gallai darparu toiledau annigonol neu leihad yn y toiledau sydd ar gael i'w defnyddio gael effaith sylweddol ar: -

a. Ydyw unigolion yn teimlo y gallant ymgymryd â thasgau neu fentrau penodol e.e. teithiau cerdded hir.
b. Ydyw unigolion yn ymweld â rhai atyniadau neu leoliadau e.e. traethau, os nad oes toiledau ar gael.

Credai'r cwmni bysus pleser y gallai'r awdurdod lleol wneud mwy i ddenu teithiau bysus pleser i bentrefi trwy ddarparu mannau parcio i fysus pleser ger cyfleusterau cyhoeddus neu gyfleusterau gyda thoiledau. Defnyddwyd Cemaes fel enghraifft ac roedd y cwmni bysus o'r farn y byddai hyn yn dod â budd economaidd i'r pentref trwy ddarparu "lle stopio dros dro braf". Mewn lleoliadau lle ceir traethau, megis Llanddona a Phorth Dafarch, nid oes unrhyw gyfleusterau eraill gyda thoiledau (e.e. caffis). Canfu ymchwil a wnaethpwyd gan ENCAMS (2008) fod dros 60% o ymwelwyr o'r farn bod toiledau cyhoeddus sydd ar gael yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar draeth i ymweld ag o. Mae llawer o draethau Ynys Môn yn denu Gwobr fawreddog y Faner Las, sy'n gofyn am ddarparu toiledau digonol fel rhan o'r asesiad (ENCAMS, 2008). Gallai cau toiledau cyhoeddus wrth y traethau hyn arwain at wneud i ffwrdd â'u statws Baner Las gyda goblygiadau ar gyfer meysydd carafanau a thwristiaid cyfagos yn ogystal ag enw da'r ynys. O'r herwydd, yr ail argymhelliad yw bod yr awdurdod lleol yn ystyried goblygiadau economaidd ehangach cau toiledau cyhoeddus i draethau lle mae toiledau yn hanfodol i gynnal eu statws gwobr glan

môr. O gofio mai dim ond chwe thoiled cyhoeddus sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn ac y gellid gweld gwelliant sylweddol trwy gynyddu ymwybyddiaeth o doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, ni fyddir yn ystyried yr effeithiau ar dwristiaeth ymhellach yn yr AEI hwn.

<u>Argymhelliad 2.</u>

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y goblygiadau i Statws y Wobr Glan Môr cyn ystyried cau toiledau cyhoeddus ar unrhyw draeth.

Cryfhaodd y grwpiau ffocws yr achos dros gynnwys pobl hŷn, unigolion ar incwm isel a phobl â chyflyrau meddygol penodol (gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, gweld a chlywed) yn yr AEI. Yn wir, roedd y tri yn awgrymu rhywfaint o effaith ar weithrediad eu busnes pe bai eu gweithwyr yn syrthio i un o'r grwpiau bregus hyn ac yn methu cwrdd â'u hanghenion toiled yn ddigonol. Dywedodd y Gwasanaeth Post fod eu staff yn llai tebygol o ddod i mewn i'r gwaith pe baent yn cael trafferthion stumog neu gyflwr oedd yn gwneud iddynt orfod galw mewn toiled yn aml, a hynny heb ei gynllunio. Dywedodd y cwmni bysus pleser bod angen iddynt fod yn ofalus pa swyddi y maent yn eu neilltuo i rai gyrwyr bysiau, oherwydd bod angen i rai ddefnyddio'r toiled yn amlach ac roedd y cwmni cludiant yn nodi y byddai gorfod defnyddio'r toiled yn amlach yn cael effaith ar ble a phryd y bydd eu gyrwyr lorïau'n stopio i gael egwyl.

Roedd gyrru'n hollbwysig ym myd busnes y tri grŵp ffocws. Trafodwyd y perygl o yrru tra oedd gyrwyr yn ddadhydradol a thynnwyd eu sylw at erthygl ddiweddar yn CVDriver (Mawrth 2016) a amlygodd arolwg o 1000 o yrwyr gan Leasing Options. Canfu bod 67% o yrwyr lorïau yn y DU yn methu adnabod symptomau amlwg dadhydradu, gan gynnwys blinder, dim yn sylwi pethau a chanolbwyntio, amseroedd adweithio arafach a chrampiau yn y cyhyrau. Camgymeriad y gyrrwr sydd i'w gyfrif am 68% o'r holl ddamweiniau cerbydau yn y DU ac mae hyd yn oed fath ysgafn o ddadhydradu yn cyfateb i fod dros gyfyngiad gyrru cyfreithlon presennol y DU o ran canran yr alcohol yn y gwaed, sef 0.08%. Roedd y Cwmni Cludiant yn ymwybodol o'r perygl hwn a thynnodd sylw'r awdur at erthygl debyg yr oeddent wedi'i weld yn *Commercial Motors* (Mawrth 2016), oedd yn seiliedig ar yr un deunydd ffynhonnell. Roedd yr erthygl hon yn fanylach ac yn cyfeirio'n benodol at oedran cyfartalog gyrwyr

cludiant, sef 54 a bod y gallu i sylwi fod rhywun yn ddadhydradol yn dirywio dros 50 oed.

Er nad oedd yr un o'r grwpiau ffocws yn ymwybodol o achosion lle roedd eu gweithwyr yn cyfyngu'n fwriadol ar yr hyn yr oeddynt yn ei yfed er mwyn lleihau yr angen oedd ganddynt i fynd i'r toiled, mae Gillian Kemp (2012) Cymdeithas Toiled Prydain (2012) yn awgrymu bod lleihau faint a gaiff ei yfed neu roi'r gorau i yfed yn un o ganlyniadau cau toiledau cyhoeddus. Yn yr erthygl gan *Commercial Motor* (Mawrth 2016), croesawodd y symudiad i annog gyrwyr i aros yn hydradol, ond dywedodd "*What goes in must come out, so loos are very much needed in order to keep drivers hydrated! This is a real conflict that has dangerous implications. It's OK to say stop and use the loo – but where are these loos for them to stop at*?"

O ganlyniad, mae'r mater o aros yn hydradol yn ddryslyd go iawn ac mewn cymdeithas sydd ag obsesiwn ag amser, mae'n rhaid i ni ragweld y bydd cyfran sylweddol o'r rhai sy'n ymwneud â phroffesiynau gyrru'n lleihau'n fwriadol yr hyn y byddant yn ei yfed er mwyn peidio â gorfod stopio mewn toiled mor aml. Serch hynny, nid oedd y cwmni cludiant yn ymwybodol bod unrhyw un o'i yrwyr yn defnyddio toiledau cyhoeddus ar Ynys Môn, yn enwedig gan nad oes toiledau ar hyd yr A55 (C). Mae ganddo gyfleusterau lles yn ei ddepo yng Nghaergybi a gallai cwmnïau eraill ddefnyddio'r safle a agorwyd yn ddiweddar yn y dref oedd yn cynnig cyfleusterau penodol ar gyfer gyrwyr lorïau.

Roedd y cwmni cludiant yn teimlo bod y cerbydau nwyddau trwm neu'r bysus pleser sy'n croesi'r ynys ar yr A55 (C) yn annhebygol o fentro oddi ar y ffordd, i'r trefi a'r pentrefi llai, i chwilio am gyfleusterau. Serch hynny, ymddengys bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus ar yr A55 (C) yn gamgymeriad arwyddocaol ac efallai ei fod yn cyfrannu at bresenoldeb poteli wrin sydd wedi'u taflu ar hyd y ffyrdd. Dywedodd ENCAMS (2008) (sy'n fwyaf adnabyddus am gynnal ymgyrch Cadw Prydain yn Daclus), mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ddarparu toiledau cyhoeddus, eu bod yn credu bod rhaid i doiledau fod ar gael mewn cyfnewidfeydd cludiant ac ar bwyntiau allweddol ar hyd prif lwybrau mynediad.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Horizon Nuclear Power yn bwriadu adeiladu cyfleuster Parcio a Theithio ar gyfer datblygiad Wylfa Newydd yng Nghyffordd 4 yr

A55 (C) ger Dalar Hir. Mae'n bosibl bod y datblygiad hwn yn cynnig y cyfle i ddarparu toiledau yn union ger yr A55 (C) a byddai'r lleoliad yn gwasanaethu traffig sy’n mynd i’r dwyrain ac i’r gorllewinol. Byddai'n rhoi’r budd ychwanegol o wasanaethu traffig sy’n mynd i’r gorllewin ac sy'n gorfod gadael yr A55 (C) yng Nghyffordd 3 ar gyfer yr A5025 (i gyfeiriad Cemaes a Wylfa Newydd). Fel arall, gan nad oes unrhyw doiledau cyhoeddus ar yr A5025 rhwng y Fali a Chemaes, byddai'n rhaid i draffig newid eu llwybr a mynd i Gaergybi i gael at gyfleusterau. Felly, trydydd argymhelliad yr AEI hwn yw y dylai'r Awdurdod Lleol anelu at geisio darparu toiledau y mae modd i’r cyhoedd eu defnyddio yn Nalar Hir fel rhan o unrhyw fwriad cynllunio. Gyda'r argymhelliad arfaethedig hwn, mae'n annhebygol (ac eithrio ymgyrchoedd addysg iechyd cenedlaethol) y bydd unrhyw ymyrraeth arall i doiledau cyhoeddus ar Ynys Môn yn lleihau'n sylweddol yr achosion o yrru wrth fod yn ddadhydradol ac ni fyddir yn ystyried y mater hwn ymhellach yn y broses asesu.

Argymhelliad 3.

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at sicrhau y darperir toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio fel rhan o gyfleuster Parc a Dalar Hir, pe rhoddid caniatâd cynllunio.

### 6.2.2 Casgliadau’r Grŵp Ffocws

Roedd y grŵp ffocws yn fodd i nifer o faterion a nodwyd yn y gweithdy gael eu harchwilio'n fanylach a chaewyd pen y mwdwl ar nifer o faterion yn y cam hwn (e.e. gweithwyr peripatetig, twristiaid a dadhydradu) trwy wneud argymhellion. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys mwy o gyhoeddusrwydd i doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio a hyrwyddo apiau cyffredin sy’n canfod toiledau. Byddai ychwanegu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac adeiladau masnachol eraill yn sylweddol well na’r chwe thoiled cyhoeddus presennol sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyfleusterau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â thwristiaid yn gysylltiedig â thraethau, daethpwyd hefyd i'r casgliad ar yr effaith ar dwristiaeth yn y cam hwn gyda'r awgrym y dylid ystyried y goblygiadau i Statws y Wobr Glan Môr cyn cau toiledau cyhoeddus ar unrhyw draeth. Gan nad oes unrhyw doiledau ar ran Ynys Môn o'r A55 (C) ac mae’r cyfleusterau toiledau presennol mewn trefi neu ardaloedd glan y môr, cryn bellter o ddarnau hir o briffordd cymudo, roedd yn annhebygol y byddai’r ddarpariaeth bresennol o doiledau neu hyd yn oed lai o doiledau cyhoeddus yn Ynys Môn yn cynyddu achosion o yrrwyr yn yfed llai er mwyn osgoi stopio i fynd i’r

toiled. Fodd bynnag, mae'r AEI yn cydnabod y gallai'r awdurdod lleol geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniad i iechyd yn sgil darparu toiledau ar y prif briffyrdd (fel yr awgrymwyd gan ENCAMS (2008)), trwy'r broses gynllunio, trwy geisio cynnwys toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio ym mwriad Parcio a Theithio Dalar Hir. Er gwaethaf yr argymhelliad hwn, caewyd pen y mwdwl ar yrru tra'n ddadhydradol a sbwriel ar y stryd (ac eithrio sbwriel penodol o boteli wrin ar hyd yr A55 (C) yn y cam hwn o'r AEI).

# 7 Asesiad

## 7.1 Grwpiau Bregus –

### 7.1.1 Pobl hŷn, pobl â chyflyrau meddygol penodol, pobl ag anableddau dysgu, gweld, clywed ac iechyd meddwl)

Mae Llywodraeth Cymru (2016) yn rhagweld y bydd nifer y boblogaeth 75 oed neu hŷn yn Ynys Môn yn cynyddu tua 5,500 er y bydd nifer y boblogaeth yn disgyn bron i 2,000 (neu 2.6%) erbyn 2039. Mae'r amcangyfrifon cyfredol yn cofnodi bod 17,557 o bobl dros 65 oed. Mae hon yn gyfran sylweddol (25%) o'r boblogaeth amcangyfrifedig o 70,170. Cofnodwyd 2,592 oedd â salwch / anabledd tymor hir yn nghyfrifiad 2011 (Conwy, 2013) tra bod nifer y bobl â salwch cyfyngol tymor hir yn 16,112. Mae'n debygol y bydd cyfran helaeth o bobl hŷn yn dod i mewn i fwy nag un o'r categorïau hyn ac yn tueddu i fod ar incwm ymddeol is.

Dywedodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) fod "peidio â gwagio pledren neu goluddyn llawn yn cynyddu cyfradd y galon a'r pwysedd gwaed, a gallai hyn achosi strôc neu drawiad ar y galon neu fod â goblygiadau iechyd eraill i bobl hen iawn, sâl neu fregus". Disgrifiodd Age Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru rai camau y mae pobl yn eu cymryd i osgoi gorfod defnyddio'r toiled pan fyddant i ffwrdd o'r cartref. Roedd y rhain yn cynnwys peidio â chymryd meddyginiaethau hanfodol (tabledi dŵr er enghraifft) a allai waethygu'r angen i basio dŵr, a chyfyngu ar faint y byddir yn ei yfed, a allai arwain at ddadhydradu a phroblemau iechyd cysylltiedig.

Er nad oedd o fewn cwmpas yr AEI hwn i fynd i unrhyw fanylion manwl pam fod cymaint o doiledau cyhoeddus wedi cau, mae yna un rheswm a allai fod yn arwyddocaol iawn i bobl anabl fel grŵp bregus ac mae'n werth ei nodi yn yr adran hon; sef y gofyn i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl dan adran 19 Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Awgrymodd Stanwell-Smith (2010) y gallai'r anallu i droi adeiladau presennol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn fod yn un o'r ffactorau ysgogol y tu ôl i gau toiledau cyhoeddus. Datblygwyd y Cynllun Allweddol Cenedlaethol, a elwir weithiau fel Cynllun RADAR, i roi mynediad annibynnol at doiledau i bobl anabl oedd yn ddeiliaid allweddau. O ganlyniad, defnyddiwyd hyn yn yr AEI hwn fel dull o asesu p'un a wnaed lwfans ar gyfer yr anabl mewn toiledau cyhoeddus ar Ynys Môn. Adroddodd Pwyllgor Archwilio Amgylchedd a

Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ynys Môn (2011) fod gan mwyafrif y toiledau cyhoeddus gyfleusterau i'r anabl gan ddefnyddio'r system allwedd "Radar" ac yn amlwg, o gofio bod rhai toiledau â mynediad Radar wedi'u cau gan yr awdurdod lleol, nid yw'n ymddangos bod hyn yn un o'r rhesymau dros eu cau. Serch hynny, nododd y Pwyllgor nad oes gan fwyafrif y toiledau cyhoeddus drydan, dŵr poeth neu oleuadau sylfaenol. Mewn geiriau eraill, nid oeddent yn cyrraedd y safon a osodwyd gan lawer o sefydliadau masnachol o bell ffordd ac roedd eu hamser agor yn gyfyngedig i oriau golau dydd.

Mae Ynys Môn wedi gweld nifer o archfarchnadoedd yn cael eu codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ynddynt doiledau o ansawdd uchel i gwsmeriaid ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a sydd â chyfleusterau newid. O’r herwydd, gellir dadlau bod y ddibyniaeth ar doiledau cyhoeddus i ddiwallu anghenion toiledau'r boblogaeth, tra’u bod i ffwrdd o'r cartref, wedi lleihau'n sylweddol ers cyflwyno'r pŵer i ddarparu toiledau cyhoeddus yn Neddf Iechyd y Cyhoedd 1936. Yn wir, yn y pen draw, mae llawer o'r cyfleusterau masnachol hyn yn elwa o safonau dylunio mwy modern nag sydd mewn llawer o doiledau cyhoeddus, mae’n amlwg.

Er bod nifer y toiledau cyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae nifer y toiledau cyhoeddus y mae modd i’r cyhoedd eu defnyddio ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Honnodd Age Cymru (a alwyd yn flaenorol yn *Cymorth i’r Henoed yng Nghymru*) yn ei adroddiad *Nowhere to Go* (2007) ar Ddarparu Toiledau Cyhoeddus yn y DU fod 80% o ymatebwyr i'w harolwg yn ei chael hi'n anodd canfod toiled cyhoeddus (a chanfu 78% nad yw eu toiledau cyhoeddus lleol ar agor pan fo’u hangen arnynt). Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol a oes prinder toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio ynteu dim ymwybyddiaeth o ble maent? Anaml y bydd toiledau mewn sefydliadau masnachol yn cael eu harddangos y tu allan i siopau heb sôn am y tu allan i gwrtil y safle, tra bod toiledau cyhoeddus yn aml i’w gweld fel adeiladau ar wahân yn aml gydag arwyddion stryd.

Nid yw’n amhosib i arwyddion ar gyfer cyfleusterau preifat fod ar strydoedd cyfagos. Yn union fel y mae darparwyr Cynllun Toiledau Cymunedol yn arddangos arwydd yn ffenestr eu hadeiladau, gallai cynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar dan Fil Iechyd y

Cyhoedd (Cymru) gynnwys darpariaeth ar gyfer arwyddion stryd. Fel arall, gallai awdurdodau lleol anelu at ddylanwadu ar waith darparu toiledau trwy ddatblygiadau cynllunio.

Mewn ymateb i ymholiad cynllunio diweddar ar gyfer archfarchnad newydd yn Llangefni, awgrymodd yr adran Iechyd yr Amgylchedd fod yr ymgeiswyr yn codi arwyddion ar gyfer "….*y cyfleusterau hyn y tu allan i'r siop yn y maes parcio, fel arall, ni fydd cwsmeriaid sy'n anghyfarwydd â'r siop yn ymwybodol bod toiledau'n cael eu darparu. Er bod toiledau cyhoeddus ar gael yn Llangefni, mae'r rhain bellter o'r siop newydd ac ni fyddant ar agor trwy gydol oriau agor y siop ".*

O ganlyniad, mae hyn yn ein harwain at y pedwerydd argymhelliad a gynigir: -

Argymhelliad 4.
Dylai'r awdurdod lleol anelu at annog sefydliadau masnachol i godi arwyddion ar gyfer toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, a hynny y tu allan i siopau a thoiledau cymunedol mewn ffordd debyg i gyfleusterau cyhoeddus.

Mae'n debygol bod y cyhoedd yn gyffredinol yn dymuno gweld toiledau cyhoeddus sy'n cyd-fynd â safonau'r rhai yn y sector masnachol. Yn wir, roedd adroddiad Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2008) yn cofnodi canlyniadau arolwg o ba mor fodlon neu anfodlon oedd trigolion â safon gyffredinol y toiledau cyhoeddus a ddarperid mewn bwrdeistref arbennig. Dangosodd y canlyniadau mai 6% yn unig o'r trigolion a deimlai'n anfodlon gyda'r Cynllun Toiledau Cymunedol er bod bron i un o bob pedwar ohonynt yn anfodlon â thoiledau cyhoeddus traddodiadol. Mae'n debyg y bydd hyn yn adlewyrchu'r anghysondeb rhwng y blynyddoedd y tanfuddsoddwyd mewn toiledau cyhoeddus ac angen y sector masnachol i gynnal cyfleusterau modern fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol i gwsmeriaid a'u "profiad".

Croesawodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Medi 2015) y gofyn i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol ond nid oedd yn credu ei fod *"..yn mynd yn ddigon pell a'i fod yn methu gorfodi Awdurdodau Lleol i ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus. Anaml iawn y bydd pobl hŷn yn galw am strategaethau ac yn lle hynny mae angen ymrwymiadau a chamau cadarn arnynt i sicrhau y gallant barhau â'u bywydau bob dydd a pharhau i fod yn gysylltiedig â'u cymunedau trwy ddarparu*

*toiledau cyhoeddus".* Fodd bynnag, byddai'n ymddangys bod yr achos i awdurdodau lleol orfod darparu mwy o doiledau cyhoeddus yn uniongyrchol wedi'i briodoli i naill ai mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru neu ddargyfeirio arian o wasanaethau eraill sydd yr un mor haeddiannol. Mae strategaeth toiledau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried anghenion y gymuned yn ogystal â'r ddarpariaeth gyfredol. Efallai na fyddai buddsoddi mewn brics a morter yn gynaliadwy yn y tymor hir. Ni ddylid cyfyngu'r ddarpariaeth gyfredol i ddarparu toiledau cyhoeddus. Er y gallai toiledau cyhoeddus fod yr unig opsiwn mewn rhai amgylchiadau (e.e. traethau sydd ymhell o bobman), dylid rhoi mwy o bwyslais ar y cysyniad o "doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio" ac a ddarperir mewn amrywiaeth o sefydliadau a chan amryw o gyrff. Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio eu hadnoddau cyfyngedig i gefnogi'r gwasanaethau hyn a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, a byddai'r cyllid sylfaenol ar gyfer hyn yn dod trwy gyllid y Cynllun Toiledau Cymunedol gan Lywodraeth Cymru (2016). Dyma yw'r pumed argymhelliad a gynigir: -

| Argymhelliad 5<br>Dylai'r awdurdod lleol roi'r arian sydd heb ei neilltuo ar hyn o bryd i un ochr ar gyfer y Cynllun Toiledau Cymunedol i ymestyn nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan ystyried y meysydd angen. |
|---|

Gall pobl ag anableddau dysgu, gweld neu glywed hefyd wynebu rhwystrau iaith ychwanegol. Mae'n debyg bod achosion o unigolion sy'n teimlo'n annifyr ynghylch defnyddio toiledau mewn mannau masnachol yn ymwneud â sefydliadau llai lle mae modd gweld pobl yn dod i mewn ac allan. Lle gall unigolyn deimlo'n embaras neu os oes ganddo anawsterau cyfathrebu yn gofyn am ddefnyddio toiled, nododd yr AEI fod cerdyn "Just Can't Wait" ar gael ar gais gan Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn a dylai'r awdurdod lleol hyrwyddo'r fenter hon fel y chweched argymhelliad a gynigir.

| Argymhelliad 6<br>Dylai'r Awdurdod Lleol hyrwyddo'r cerdyn "Just Can't Wait" sydd ar gael ar gais gan Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn. |
|---|

O ystyried yr uchod, daw'r AEI i'r casgliad, trwy ddatblygu strategaethau lleol a chyda mwy o bwyslais ar ddarparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, na ddylai cau toiledau cyhoeddus gael effaith negyddol ar iechyd y grwpiau bregus dan sylw.

Gyda mwy o gyhoeddusrwydd a phartneriaeth â busnesau lleol, gallai'r ddarpariaeth gyffredinol o doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio wella'r modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys ymestyn oriau agor.

### 7.1.2 Digartrefedd ac unigolion ar incwm is

Mae'r Memorandwm Esboniadol i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (Tachwedd 2016) (Paragraff 903) yn cyfeirio at yr effeithiau negyddol hysbys y gall darpariaeth wael o ran toiledau eu cael ar y digartref, ond mae Doherty et al (2008) yn esbonio'n fanylach: -

*"Human beings, as embodied entities, need a private and secure location in which to carry out necessary and quotidian functions such as sleeping, washing, reproducing and socialising. In advanced industrial democracies, such a location is typically secured by access to housing. Homeless people by definition are unable to access adequate housing of their own, and societal property rules forbid access (without permission) to the private property (houses) of others. The alternative location for homeless people, for human functioning, is public space (broadly defined)".*

Mae Shelter (2007) yn gwneud yr hyn a ddylai fod yn sylw amlwg, bod cysgu ar y stryd yn achosi niwed i iechyd trwy oherwydd y cyfleusterau sylfaenol ar gyfer gofal personol megis ymolchi a golchi dillad. Yn ôl amcangyfrifon yr Elusen Digartref - Crisis, mae pobl ddigartref (ar gyfartaledd) yn marw yn 47 oed a merched digartref hyd yn oed yn iau yn 43; sawl degawd cyn eu cydwladwyr mewn cymdeithas arferol.

Cyfeiriodd Cymdeithas Toiledau Prydain yn eu tystiolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol (2012) ei bod yn amlwg nad oedd gwerthfawrogiad o'r ffaith fod toiledau annigonol yn cael effaith ar y digartref a denodd y sylw a ganlyn yn adroddiad y dystiolaeth ar oblygiadau cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol i Iechyd y Cyhoedd - adroddiad tystiolaeth (Mawrth 2012): -

*"The BTA also highlighted that the needs of the homeless are seldom mentioned in connection with public toilets, but their toileting requirements do need to be addressed if street fouling is to be reduced".*

Mae hyd yn oed y datganiad hwn yn cyfeirio at yr arwyddocâd gwrthgymdeithasol neu negyddol sy'n gysylltiedig â digartrefedd, sef y posibilrwydd o gynyddu achosion o "faeddu strydoedd" ond, mewn gwirionedd, mae'n debygol mai pobl allan yn dathlu hwyr yn y nos sy'n cyfrannu fwyaf i faeddu strydoedd. Yn ei herthygl ar *"The role of the public toilet: pathogen transmitter or health facilitator?"* awgryma C Greed (2006):-

*"The promotion of the 24 hour city, characterized by a male youth drinking culture, along with toilet closure, has resulted in increased street urination, creating the conditions for the spread of previously-eradicated, water borne diseases in city streets."*

Canfu'r AEI hwn mai ychydig iawn o sylw a roddir i oblygiadau cau toiledau cyhoeddus i'r digartref, os o gwbl. Ar wahân i lochesi nos, mae'n debyg mai toiledau cyhoeddus yw'r unig leoliadau lle gall y digartref fynd i roi sylw i'w hanghenion toiled yn gyfforddus: ymolchi, glanhau eu dannedd a'u dillad. Mae'n debygol y bydd angen toiled ar fenywod sy'n ddigartref yn aml os ydynt yn feichiog neu â'r mislif arnynt. Yn anffodus, mae'r anghenion sylfaenol dynol hyn yn cael eu hanwybyddu'n aml oherwydd achosion o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, rhywbeth a nodir gan Crisis fel y rheswm pam bod dwy ran o dair o bobl yn mynd yn ddigartref. Mae hyn (fel yn achos y gweithdy) yn aml yn rhoi rheswm cadarnhaol prin dros gau toiledau cyhoeddus.

Yn aml, ceir camdybiaeth bod cysgu ar y stryd yn broblem sydd wedi'i gyfyngu i ddinasoedd mawr ond, yn anffodus, mae nifer o bobl ddigartref mewn cymunedau cymharol wledig, fel Ynys Môn. Ym mis Rhagfyr 2007, sefydlodd Digartref Ynys Môn Gysgodfa Nos yng Nghaergybi. Nododd erthygl yn y Daily Post ar 23ain Ionawr 2008 drafferth un o'u cleientiaid: -

*"Before this I was sleeping rough in the town, usually around the terminal area. The night shelter has made the world of difference and now I get a decent night's sleep, a TV, a toilet."* [2]

[2] http://www.dailypost.co.uk/news/local-news/holyhead-shelter-been-godsend-homeless-2850495

Ym mis Tachwedd 2015, ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag ymarfer cenedlaethol i fonitro cysgu ar y stryd, ymarfer a gynhaliwyd gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill. Ei amcan oedd mesur faint o bobl oedd yn cysgu ar y stryd ledled Cymru trwy ymarfer casglu gwybodaeth pythefnos o hyd, ac yna gymryd un cyfrif ciplun am 3:00 y bore, y 25ain o Dachwedd 2015. Gwelwyd 82 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru ac er bod yna 180 o leoedd gwely brys noson y cyfrif, dim ond 11% o'r lleoedd gwely hynny (19) oedd ar gael. Fodd bynnag, yn ystod y pythefnos rhwng yr 2il a'r 15fed o Dachwedd, roedd 240 wedi bod yn cysgu ar y stryd ledled Cymru. Mae Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer noson y cyfrif yn awgrymu na welwyd neb yn cysgu ar y stryd yn Ynys Môn, ond rhoddwyd ffigwr amcangyfrifol o 2.

O gofio eu bod yn ymwneud â phobl ddigartref ar Ynys Môn, penderfynodd yr awdur fynd at Digartref Ynys Môn i gael eu barn ar effeithiau cau toiledau cyhoeddus a phenderfynu ar union nifer y bobl a nodwyd yn y cyfrif diweddaraf sy'n cysgu ar y stryd yn 2016.

Eglurodd e-bost gan Digartref ar yr 2il o Ragfyr 2016 y byddai cau toiledau cyhoeddus ar yr Ynys (yn enwedig yng Nghaergybi) yn cael effaith ar y digartref mewn sawl ffordd, fel angen ac fel cyfleuster. Mae toiledau cyhoeddus wedi bod yn cael eu defnyddio gan bobl ddigartref i ymolchi ac weithiau i olchi eu dillad e.e. sanau a dillad isaf. Yn ffodus, mae ganddynt y ganolfan ddydd yng Nghaergybi ar gyfer yr anghenion cymorth hyn, ond mewn trefi eraill ar yr Ynys maent yn dibynnu ar doiledau cyhoeddus. Mae toiledau hefyd yn cael eu defnyddio yn yr hyn a ystyrir yn fodd anghymdeithasol e.e. cysgod (mynd allan o'r tywydd oer a gwlyb) ond hefyd ar gyfer yfed a chamddefnyddio sylweddau, gan orfodi cyflenwi blychau ar gyfer offer miniog.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r ffigyrau cynharach o 2015 yr adroddodd Llywodraeth Cymru arnynt, dywedodd Digartref y bu 17 o bobl yn cysgu ar y stryd rhwng Ebrill 2016 a Medi 2016 a bod naw mewn llety dros dro yn cysgu ar soffa aelod o'r teulu / ffrind, er y gallant fod allan ar y stryd hefyd yn ystod y dydd.

Ymddengys o'r AEI hon y bydd rhai o effeithiau mwyaf cau toiledau cyhoeddus i'w gweld ar y digartref. Nid oes unrhyw grŵp bregus arall yn dibynnu arnynt i'r un graddau ac ychydig iawn o ddewisiadau amgen sydd ar gael y tu allan i Gaergybi. Efallai na fydd effeithiau cau toiledau cyhoeddus ar y digartref yn amlwg ar unwaith ac oherwydd adnoddau sy'n crebachu, hawdd deall y byddai'n well gan awdurdodau lleol fuddsoddi mewn gwasanaethau uniongyrchol i leihau digartrefedd yn hytrach na chynnal toiledau cyhoeddus iddynt eu defnyddio. Serch hynny, dylid ystyried anghenion toiled y digartref wrth wneud penderfyniadau ynghylch cau toiledau cyhoeddus. Mae gan yr awdurdod lleol nifer o ganolfannau hamdden ar draws yr ynys a gellid ystyried caniatáu i bobl ddigartref eu defnyddio yn ystod amserau penodol o'r dydd fel y gallant gael cawod neu ymolchi. Yn ddiddorol, mae adran 86 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, (yr adran sydd union cyn y Pŵer i Ddarparu Toiledau Cyhoeddus), yn caniatáu i awdurdod lleol ddarparu "Gorsaf Glanhau". Mae'n debyg y cafodd ei gynnwys mewn term mwy cyfarwydd yr adeg honno, "baddonau cyhoeddus" neu "tai baddonau" oedd mewn bodolaeth ers Deddf Baddonau Cyhoeddus a Thai Golchi 1846. Yn wahanol i'n canfyddiadau modern, bryd hynny, roedd baddonau cyhoeddus yn fwy cysylltiedig â'r angen i gynnal iechyd, cysur a lles, nag ymgymryd â gweithgareddau hamdden. O'r herwydd, ymddengys yn briodol y dylai'r seithfed argymhelliad a gynigir fod ar drywydd tebyg: -

Argymhelliad 7.
Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried effeithiau posib cau toiledau cyhoeddus ar y digartref a lle nad oes darpariaeth arall, dylai ystyried caniatáu i'r digartref ddefnyddio cyfleusterau eraill o ansawdd da ar gyfer ymolchi a rhoi sylw i'w hanghenion toiled.

Roedd canfyddiad cyffredinol yn y gweithdy na fyddai busnesau'n croesawu pobl nad oeddynt yn gwsmeriaid i ddefnyddio'u cyfleusterau toiled. Gallai'r rheini sydd ar incwm isel ddefnyddio llai ar gyfleusterau oherwydd y byddent yn teimlo'n annifyr yn gofyn am ddefnyddio cyfleusterau mewn caffis neu siopau pe baent yn meddwl y byddai angen iddynt brynu rhywbeth. Fodd bynnag, mae llawer o doiledau cyhoeddus Ynys Môn bellach yn codi 20c ac mae manteision defnyddio cyfleusterau am ddim mewn eiddo preifat yn amlwg. Adroddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2008) bod busnesau y maent yn cysylltu â nhw wedi nodi cynnydd yn niferoedd cwsmeriaid a thystiolaeth anecdotaidd o gynydd mewn masnach o ganlyniad i Gynllun Toiledau Cymunedol.  Y canlyniad i bobl leol oedd y gallent

ddefnyddio nifer ac ystod llawer mwy o doiledau yn y fwrdeistref ac roedd y rhain yn lân a diogel, wedi'u lleoli mewn adeiladau a reolir, ac yn agor le a phryd yr oedd eu hangen ar bobl. Mae'r AEI eisoes wedi nodi bod cerdyn "Just Can’t Wait" Sefydliad y Bledren a’r Coluddyn ar gael ar gais ac efallai y byddai hyn hefyd o ddefnydd i rai ar incwm isel sy'n cael anhawster cael hyd i doiled ar fyr rybudd. Gan y bydd mynediad at wasanaethau a’u hansawdd yn cael ei ystyried ymhellach yn 7.3, daw’r AEI i'r casgliad, wrth ddatblygu strategaethau lleol a chyda mwy o bwyslais ar ddarparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, na ddylai cau toiledau cyhoeddus, o reidrwydd, gael effaith negyddol ar y rheini ag incwm isel.

## 7.2 Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd

**(Arwahanrwydd ac unigrwydd).**

Mae Cymorth i’r Henoed (2007) yn amcangyfrif bod tua hanner y rhai dros 75 yn y DU yn byw ar eu pennau eu hunain, gyda chymaint â 1.75 miliwn o bobl hŷn yn dweud eu bod yn teimlo'n unig, 1.2 miliwn yn teimlo eu bod wedi’u caethiwo yn eu cartrefi eu hunain, nid yw 1.26 miliwn yn mynd allan mwy nag unwaith yr wythnos ac nid yw oddeutu 100,000 o bobl hŷn byth yn mynd allan o gwbl. Mae hefyd yn credu bod prinder toiledau cyhoeddus yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at ynysu pobl hŷn, tra bod Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan (Medi 2011) yn datgan bod problemau ymataliaeth yn ail yn unig i ddementia fel ffactor cychwynnol i bobl sy'n symud i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2014), mewn trafodaethau â phobl hŷn ledled Cymru, fod y gostyngiad mewn gwasanaethau cymunedol fel toiledau cyhoeddus yn bryder allweddol. Mae'r Comisiynydd yn credu bod cau toiledau cyhoeddus yn effeithio ar iechyd corfforol (mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef anymataliad y bledren neu’r coluddyn, gan arwain at fwy o berygl o drawiadau ar y galon a strôc oherwydd cynnydd dros dro mewn pwysedd gwaed a achosir gan fethu gwagio’r bledren), iechyd meddwl (gall ofn methu cael i doiled arwain at arwahanrwydd cymdeithasol ac iselder ysbryd), ac iechyd yr amgylchedd (mae'r perygl o heintio yn sgil baeddu strydoedd yn cynyddu pan fo toiledau cyhoeddus yn cau). Mae cau toiledau cyhoeddus neu ei gwneud yn anos i’w defnyddio’n niweidiol i iechyd y cyhoedd ac yn cael effaith andwyol ar yr economi, gyda phobl hŷn, gan gynnwys trigolion lleol, ymwelwyr a thwristiaid, yn llai tebygol o

ymweld â lleoedd. Gall cau toiledau cyhoeddus arwain at bobl hŷn yn mynd yn gaeth i'r tŷ a'r mannau sy'n bwysig iddyn nhw'n mynd, i bob pwrpas, yn fannau nad oes modd iddynt fynd yno. Awgryma tystiolaeth hefyd y gall y prinder toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd atal pobl hŷn rhag ymweld ag ardal.

Mae Cymorth i'r Henoed (2007) yn credu, er mwyn lliniaru'r pryder hwn, bod llawer o bobl yn cynllunio ymlaen llaw lle gallant fynd i'r toiled a pha siwrneiau y gallant eu gwneud. Mae rhai yn byw mewn ofn bod mewn sefyllfa o embaras neu lawn cywilydd, sy'n cyfyngu ar le y gallant fynd, pa mor bell y gallant fynd ac am faint.

Honna Holt-Lunstad, (2015) a ddyfynwyd gan yr Ymgyrch i Wneud i Ffwrdd ag Unigrwydd, bod unigrwydd yn cynyddu tebygolrwydd marwolaeth 26% a bod modd ei gymharu ag effaith ffactorau risg adnabyddus fel gordewdra, a bod ei ddylanwad yn debyg i ysmygu 15 o sigaréts y diwrnod . Felly, mae'n anochel bron bod unigolion unig yn fwy tebygol o gael iselder ((Cacioppo et al, 2006) (Green et al, 1992) a ddyfynwyd gan yr Ymgyrch i Wneud i Ffwrdd ag Unigrwydd).

Adroddodd ffigurau Cyfrifiad 2011 fod yn Ynys Môn 4,802 o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pennau eu hunain, ond gan fod materion ymataliaeth yn cael effaith ar bob grŵp oedran, gallai hyn gael effaith ar lawer mwy o'r 9,888 o drigolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain. O ran canran y trigolion y mae eu problemau bob dydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd tymor hir (gan gynnwys problemau oherwydd henaint), mae Ynys Môn fymryn yn uwch (23.1%) na chyfartaledd Cymru (22.7%).

Mae cyllideb toiledau cyhoeddus Ynys Môn wedi gostwng o £340,000 i £187,740 mewn ychydig flynyddoedd yn unig. Heb gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu hadnabod o adnoddau'r Cyngor – adnoddau sy'n crebachu. Yn wir, pe câi adnoddau eu neilltuo i doiledau cyhoeddus efallai y câi hyn effaith ar wasanaethau eraill. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (2016), *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Heneiddio'n Dda yn Ynys Môn 2014-2020*, yn nodi unigrwydd ac arwahanrwydd fel un o bum maes blaenoriaeth Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Mae hyn wedi ei integreiddio i Gynllun Gweithredu Drafft Unigrwydd ac Arwahanrwydd y Cyngor, Gorffennaf 2015 a nodir tri chanlyniad: -

| | |
|---|---|
| **Canlyniad 1** | **Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn cael eu cydnabod fel materion iechyd a diogelwch y cyhoedd yng Nghymru** |
| **Canlyniad 2** | **Mae prif achosion a ffactorau Unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru'n cael eu hadnabod a'u deall** |
| **Canlyniad 3** | **Datblygir cymorth arloesol a hygyrch, gan roi sylw i effaith newidiadau i amgylchiadau bywyd y mae pobl hŷn yn ei wynebu** |

**Tabl 10, Gynllun Gweithredu Drafft Unigrwydd ac Arwahanrwydd y Cyngor, Gorffennaf 2015**

Er nad oes sôn am doiledau cyhoeddus fel prif achos unigrwydd ac arwahanrwydd, mae'r Cynllun Gweithredu'n trafod yr angen i nodi arferion da ledled y DU a chynnal dadansoddiad o'r gwasanaethau sydd yn Ynys Môn ar hyn o bryd. Ei fwriad yw cyflwyno ymgyrch farchnata i hyrwyddo ymwybyddiaeth o unigrwydd ac arwahanrwydd (gan gynnwys cysylltiad â staff hyfforddi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol) a gwelliannau i weithio mewn partneriaeth fel na fyddir yn dyblygu cymaint o wasanaethau ac er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleusterau ac adnoddau cymunedol. Yn ddiddorol, ni wahaniaethir rhwng cyfleusterau cyhoeddus a phreifat yn y datganiad diwethaf hwn a dylid cymryd agwedd debyg yn yr AEI hwn. Dylid dadansoddi'r ddarpariaeth toiledau bresennol er mwyn dod o hyd i'r dyblygu fel bod modd i'r Cyngor wneud y mwyaf o adnoddau. Dylid ystyried effeithiau darparu toiledau cyhoeddus ar unigrwydd ac arwahanrwydd o ran y cynllun gweithredu ehangach; ochr yn ochr ag ymyraethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cyfeillio a Chanolfannau Heneiddio'n Dda. Yn y tymor hir, efallai y bydd gan y gwasanaethau hyn fwy o fanteision na thoiledau cyhoeddus, os nodir bod cyfleusterau preifat eisoes yn rhoi sylw i angen. Mae holiadur (wedi'i addasu o holiadur y Senedd dros Bobl Hŷn '"P" for People' ) wedi'i gynnwys yn Atodiad 5 a gallai darparwyr gwasanaethau (e.e. Gweithwyr Cymdeithasol) ei ddefnyddio i adnabod angen. Mae hyn yn arwain at yr wythfed argymhelliad: -

Argymhelliad 8

Dylid ystyried effeithiau crebachu mewn darparu toiledau cyhoeddus yng nghyswllt cynllun gweithredu unigrwydd ac arwahanrwydd, yn hytrach nag fel mater ar wahân. Dylai'r cyfleusterau presennol gael eu mapio er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau ac er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiau adnoddau cyfyngedig.

## 7.3 Mynediad at y Gwasanaethau a'u hansawdd

**(Gostyngiad mewn mwynderau, darpariaeth amgen gan fusnesau preifat a defnyddio TG)**

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan ENCAMS (2008) i ganfod barn ar wasanaethau toiledau cyhoeddus, roedd ar 84% o'r ymatebwyr eisiau mwy o ddarpariaeth. Roedd y ganran hon yn uwch o fewn rhai grwpiau oedran gyda 88% o bobl 16-24 oed a 91% o bobl 55-64 oed yn datgan y dylid bod mwy o ddarpariaeth. Fodd bynnag, canfu Cymorth i'r Henoed yg Nghymru (2009) fod 84% o ymatebwyr i'w harolwg wedi canfod fod pryderon ynghylch diogelwch yn peri i doiledau cyhoeddus fod yn annymunol ac roedd 87% o'r farn y dylai siopau a busnesau wneud mwy o ymdrech i ddarparu toiledau cyhoeddus. Ymddengys o'r canlyniadau p'run a yw'r cyfleusterau yn doiledau cyhoeddus annibynnol neu beidio, nid yw'n berthnasol iawn p'run ai toiledau cyhoeddus mewn adeiladau cyhoeddus ydynt (megis llyfrgelloedd), ynteu'n gyfleusterau preifat mewn sefydliadau manwerthu. Mae'n ymwneud â'r ffaith a oes toliedau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio mewn lleoliadau lle mae'r cyhoedd yn debygol o dreulio amser yn siopa neu ymgymryd â gweithgareddau hamdden. Lle mae hyn yn wir, mae'n hanfodol bod y cyfleusterau o safon dda ac yn agored am yr amser y mae'r cyhoedd yn debygol o fod yn y mannau hyn.

Unwaith eto, mae ENCAMS (2008) wedi nodi bod nifer toiledau cyhoeddus yr awdurdodau lleol yn cael eu disodli (i ryw raddau) gan ddarpariaethau masnachol yng nghanol trefi a dinasoedd, er bod eu niferoedd yn gostwng. Mae gan siopau mawr doiledau am ddim â mynediad i'r anabl ac mae digonedd o siopau bwyd cyflym ar gael. Yn gyffredinol, mae ENCAMS (2008) yn cyfaddef bod toiledau a ddarperir yn breifat yn lanach ac yn fwy diogel na hen doiledau'r awdurdodau lleol a phe bai awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau preifat a gweithredwyr trafnidiaeth, gallent wella'n sylweddol nifer y cyfleusterau sydd ar gael.

Mae nifer o drefi ar Ynys Môn ag eiddo masnachol gyda thoiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae llawer o'r trefi hyn yn parhau i gynnal toiledau cyhoeddus ond yn aml nid yw'r amseroedd agor yn cyd-fynd â rhai'r eiddo masnachol. Yn ddiweddar derbyniodd Adran Gynllunio Ynys Môn gais am archfarchnad newydd yn Llangefni. Roedd y siop yn cynnwys toiledau i gwsmeriaid a fyddai ar agor yn ystod yr oriau agor. Ar y llaw arall, nid oes cyflenwad trydan yn y cyfleusterau cyhoeddus

cyfagos, ac mae angen eu cau cyn iddi dywyllu neu am 6pm, pa un bynnag yw'r cynharach. Pan ymgynghorwyd â'r Adran Iechyd yr Amgylchedd ynghylch y cynnig cychwynnol, gwnaeth y sylwadau a ganlyn i'r Adain Gynllunio: -

*"Rydym yn nodi'r bwriad i gynnwys toiledau i gwsmeriaid yn y cynnig. Rydym yn croesawu hyn ond byddem yn argymell ... codi arwyddion ar gyfer y cyfleusterau hyn y tu allan i'r siop yn y maes parcio, neu ni fydd cwsmeriaid sy'n anghyfarwydd â'r siop yn ymwybodol y darperir toiledau. Er bod toiledau cyhoeddus ar gael yn Llangefni, mae'r rhain cryn bellter o'r siop newydd ac ni fyddant ar agor trwy gydol oriau agor y siop.*

*Byddem yn argymell bod y toiledau'n cael eu dylunio i safonau arfer gorau o ran hygyrchedd a chyfleusterau, gyda chyfleusterau digonol ar gyfer oedolion a newid babanod.*

*Deallaf fod gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd Gynllun Toiledau Cymunedol a allai fod o ddiddordeb i'r datblygwr. Byddem hefyd yn argymell ... eu bod yn hysbysebu yn eu gwybodaeth gyffredinol sy'n ymwneud â'r storfa e.e. ar eu gwefan, bod ganddynt doiledau i gwsmeriaid a dylent fod yn ymwybodol bod yna hefyd nifer o apiau canfod toiledau lle gallant hefyd gofrestru eu cyfleusterau".*

Mae hyn yn dangos ei bod hi'n bosib i awdurdod lleol ddylanwadu ar ddarpariaeth toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio drwy'r gyfundrefn gynllunio a gallai hyn (yn y pen draw) sicrhau fod mwy ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y cyfleusterau hyn yn cael eu hysbysebu trwy arwyddion ym meysydd parcio'r siopau, ar eu gwefannau ac ar apiau canfod toiledau.

Ymddengys y bu gan y gweithdy cyfranogol gyfiawnhad yn nodi: er y byddai toiledau cyhoeddus yn arwain at ostyngiad mewn mwynderau, y gallai busnesau preifat sicrhau darpariaeth amgen. Gallai ymwybyddiaeth gynyddol o leoliadau toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio gynorthwyo i wneud i ffwrdd â phryderon nad oes modd eu cyfiawnhau, nad oes dim cyfleusterau. Gallai technoleg symudol fel apiau canfod toiledau gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r ardal (e.e. twristiaid) i ddod o hyd i'r toiled agosaf ac mae hyn yn arwain at y nawfed argymhelliad: -

Argymhelliad 9

Dylai'r awdurdod lleol geisio dylanwadu ar waith darparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio trwy benderfyniadau cynllunio.

## 7.4 Amchylchiadau Byw ac Amgylcheddol sy'n cael effaith ar iechyd

**(Baeddu strydoedd, yn enwedig felly ar hyd yr A55(C)).**

Nododd y grwpiau ffocws gyda'r Cwmnïau Cludiant a Bysus Pleser y mater ynghylch poteli wrin sy'n cael eu taflu ar yr A55 (C) a'u gadael yno. Priodolodd y Cwmni Cludiant hyn i yrwyr lori sy'n gyrru pellter hir a allai fod wedi parcio dros nos ger y porthladd mewn mannau parcio answyddogol heb unrhyw gyfleusterau. Er bod man stopio i lorïau yng Nghaergybi, rhaid i gerbydau nwyddau trwm dalu am barcio ac mae'n well gan rai gyrwyr lori, yn enwedig rhai nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU, ddefnyddio lleoliadau answyddogol amgen fel yn y stad ddiwydiannol neu yn y Parc Manwerthu.

Er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth ynglŷn â'r mater hwn, cysylltodd yr awdur â'r asiantaeth sy'n gyfrifol am gynnal yr A55 (C) ar draws Ynys Môn a siarad â chynrychiolydd dros y ffôn. Roeddent o'r farn mai cerbydau nwyddau trwm sy'n defnyddio'r ffordd gerbydau (hynny yw sy'n teithio i ffwrdd o Gaergybi) tua'r dwyrain oedd prif ffynhonnell y broblem. Roedd y gwahanol gilfannau ar hyd y ffordd gerbydau yn fannau drwg o ran gadael poteli wrin a bagiau siopa yn cynnwys baw dynol. Roedd y contractwr sy'n gyfrifol am gasglu sbwriel wedi penderfynu gosod biniau sbwriel ei hun ym mhob un o'r cilfannau mewn ymdrech i osgoi gorfod casglu gwrthrychau o fannau anodd, e.e. coed.

Mae'n ymddangos bod y broblem yn cael ei phriodoli i rôl Caergybi fel croesfan môr mawr i Iwerddon a gyrwyr lorïau'n parcio yn y dref. Awgrymwyd i'r asiantaeth briffordd y gallent ystyried ymgyrch gyda'r Cwmnïau Fferi i atal sbwriel a darparu cynhwysydd sbwriel penodol yn y porthladd; Fodd bynnag, ni chynigir fod hyn yn argymhelliad gan nad yw'n cael unrhyw effaith ar yr AEI hwn. Er i argymhelliad 3 awgrymu y dylai'r awdurdod lleol geisio sicrhau toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio fel rhan o gyfleuster parcio a theithio Dalar Hir, mae'n annhebygol y bydd lleihad mewn toiledau cyhoeddus yn cael effaith ar sbwriel ar yr A55 (C).


## 7.5 Ffactorau micro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwy

**(Cyd-destun polisi)**

Bu pryderon cynyddol ynghylch cau toiledau cyhoeddus ar lefel genedlaethol ers nifer o flynyddoedd. Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin adroddiad oedd yn edrych ar Ddarparu Toiledau Cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2012, lluniodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar " Goblygiadau iechyd cyhoeddus o gyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol - adroddiad tystiolaeth". Wedi'r ymchwiliad lluniwyd Papur Gwyn 'Gwrando arnoch chi: mae eich iechyd yn bwysig' (2014), oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd. Cyhoeddwyd y bil ar y 7fed o Dachwedd 2016 a chynigiai y dylai fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Ymddengys bod amcanion strategaeth toiledau'n cyd-fynd yn sylfaenol â nifer o'r nodau Llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a welir yn y ffigwr a ganlyn: -

**Ffigwr 9.**



Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol i ystyried effaith eu penderfyniadau ar y nodau llesiant er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Heb waith lliniaru digonol, mae'n debygol y bydd cau toiledau cyhoeddus yn cael effaith ar nifer o nodau: -

| | |
|---|---|
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru fwy cydradd** | Cymdeithas sy'n ei gwneud yn bosib i bobl gyflawni eu potensial, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| **Cymru o gymunedau cydlynol** | Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel ac sydd wedi'u cysylltu'n dda |
| **Cymru o ddiwylliant byw ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, etifeddiaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon ac adloniant |

Credai'r rhanddeiliaid oedd yn y gweithdy bod polisi o gau toiledau cyhoeddus yn ddiwahan yn mynd yn erbyn llawer o bolisïau cyhoeddus, megis Datganiad Dulyn a "Dinasoedd Cyfeillgar i Oed". Fodd bynnag, ymddengys nad y weithred o gau toiledau cyhoeddus ynddo'i hyn sy'n groes i gymaint o bolisïau, ond cau toiledau cyhoeddus heb yn gyntaf ddiogelu fod darpariaeth amgen yn ei lle. Byddai strategaeth doiledau'n gorfodi awdurdod lleol i ystyried a yw hyn yn wir a hwyluso gwaith rhoi mesurau lliniaru ar waith. Heb weithredu fel hyn, mae'n anochel y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ei chael hi'n anodd cyfiawnhau eu penderfyniadau yn wyneb tystiolaeth mor enfawr o angen y cyhoedd, sy'n arwain at y degfed argymhelliad, yr argymhelliad olaf:

Argymhelliad 10.

Dylai'r Awdurdod Lleol roi sylw i'r nodau Llesiant wrth ystyried cau toiledau cyhoeddus a sicrhau bod darpariaeth amgen yn ei lle.

# 8 Casgliadau ac argymhellion

Mae'r AEI hwn wedi dangos nad yw hyn yn fater o Doiledau Cyhoeddus ond yn hytrach yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn "Doiledau y mae modd i’r Cyhoedd eu Defnyddio". Nid yw p'un a ydynt yn cael eu cynnal gan awdurdod lleol ynteu sefydliad yma nac acw, cyn belled ag y bo’r cyfleusterau o safon dda ac yn agored pan fo’u hangen ar bobl.

Yn 2014-15, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru £200,000 o'r Cynllun Grant Toiledau Cymunedol i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn cynyddu hyblygrwydd cyllido i awdurdodau lleol. Bellach, mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut y dylid defnyddio'r arian hwn i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau ei gymunedau. Pe bai'r gofyn i lunio strategaeth doiledau’n dod yn gyfraith, y cynnig yw y byddai gan bob awdurdod lleol arian a fyddai’n fodd i 18 o fusnesau dderbyn £500. Er gwaethaf y manteision a ddaw i unrhyw gwmni o hyrwyddo toiledau sydd ar gael i’w defnyddio, mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i’r awdurdod lleol ddatblygu strategaeth toiledau tymor hir.

Ymddengys bod y gwaith ymchwilio i lenyddiaeth a phrosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid yr AEI yn cefnogi'r casgliad llethol bod yna ganlyniadau dwys i iechyd oni bai y gall unigolion roi sylw i’w hanghenion toiled pan fyddant i ffwrdd o'r cartref. Felly mae'n dilyn, oni chydnabyddir anghenion iechyd unigolion sydd â phroblemau anymataliaeth a'r rhan sydd gan gyfleusterau toiled digonol i’w chwarae, nid yw'n bosib datblygu Cymru iachach fel y canfyddir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni fydd cymdeithas sy'n methu rhoi sylw i anghenion toiled y digartrefedd neu nad yw'n darparu cyfleusterau digonol ar gyfer yr henoed na’r anabl yn Gymru fwy cyfartal. Ni fydd cymdeithas nad yw'n darparu toiledau diogel, glân, y mae modd eu defnyddio, yn Gymru o gymunedau cydlynol a chymdeithas lle mae pobl yn ofni gadael eu cartrefi oherwydd eu bod yn bryderus pryd y bydd angen iddynt ddefnyddio’r toiled nesaf, yn dod yn Gymru o ddiwylliant bywiog sy'n cefnogi'r celfyddydau, chwaraeon ac adloniant.

Cynigiwyd deg argymhelliad yn yr AEI oedd â’r nod o roi sylw i’r amryfal bryderon hyn; caiff y rhain eu hailadrodd yn y tabl a ganlyn er mwyn cael eu hystyried: -

| | **Tabl 11. Yr Argymhellion** |
|---|---|
| 1 | Dylai'r Awdurdod Lleol gofrestru'r holl doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio sydd ar gael ar apiau perthnasol i ganfod toiledau, a chadw'r wybodaeth yn gyfredol. |
| 2 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y goblygiadau ar Statws y Wobr Glan Môr, cyn ystyried cau toiledau cyhoeddus ar unrhyw draeth. |
| 3 | Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at sicrhau y darperir toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio fel rhan o gyfleuster Parc a Dalar Hir, pe rhoddid caniatâd cynllunio. |
| 4 | Dylai'r awdurdod lleol anelu at annog sefydliadau masnachol i roi arwyddion am doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio y tu allan i siopau a dylai toiledau cymunedol fod â'r un arwyddion ag sydd ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus. |
| 5 | Dylai'r awdurdod lleol roi'r arian sydd heb ei neilltuo ar hyn o bryd i un ochr ar gyfer y Cynllun Toiledau Cymunedol i ymestyn nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan ystyried y meysydd angen. |
| 6 | Dylai'r Awdurdod Lleol hyrwyddo'r cerdyn "Just Can't Wait" sydd ar gael ar gais gan Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn. |
| 7 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried effeithiau cau toiledau cyhoeddus ar y digartref a lle nad oes darpariaeth arall, dylai ystyried caniatáu i'r digartref ddefnyddio cyfleusterau hamdden ar gyfer ymolchi a rhoi sylw i'w hanghenion toiled. |
| 8 | Dylid ystyried effeithiau lleihad mewn darparu toiledau cyhoeddus yng nghyswllt y cynllun gweithredu unigrwydd ac arwahanrwydd, yn hytrach nag fel mater ar wahân. Dylai'r cyfleusterau presennol gael eu mapio er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau ac er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiau adnoddau cyfyngedig. |
| 9 | Dylai'r awdurdod lleol geisio dylanwadu ar waith darparu toiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio trwy benderfyniadau cynllunio. |
| 10 | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y nodau Llesiant wrth ystyried cau toiledau cyhoeddus a sicrhau bod darpariaeth arall yn ei lle. |

# 9 Monitro a Gwerthuso

Un o amcanion sylfaenol yr AEI hwn oedd cynorthwyo'r awdurdod lleol i lunio Strategaeth Doiledau. Er gwaethaf adolygiad o lenyddiaeth helaeth, mae gwybodaeth am doiledau cyhoeddus a ddarperir yn eithaf prin ac yn wasgaredig. Mae llawer o sefydliadau (llawer yn elusennau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid) wedi cynnal eu gwaith hymchwil eu hunain, wedi'i seilio'n bennaf ar ddata'r arolwg. Er bod hyn wedi bod yn hynod werthfawr wrth ddatblygu safbwynt cyd-destun yr AEI, roedd yr awdur yn fwriadol yn ystyried a oedd y safbwyntiau'n ystadegol gynrychioliadol cyn dod i gasgliadau penodol ar gyfer Ynys Môn. Serch hynny, y gobaith mawr yw y bydd yr adolygiad o lenyddiaeth, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r proffil cymunedol yn gymorth i'r swyddogion hynny sy'n cwblhau'r Strategaeth Doiledau ac y bydd y rhestr gyfeirio yn fodd i gael gwiriad annibynnol.

Nod unrhyw AEI yw helpu i lywio penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Disgwylir yn eiddgar yn yr adolygiad o'r strategaeth toiledau pa un a yw'r argymhellion yn ddefnyddiol ai peidio neu yn annog deialog gydag adrannau eraill (e.e. Cynllun Gweithredu Unigrwydd ac Arwahanrwydd). Mae drafft cynnar o'r AEI eisoes wedi'i anfon at Swyddogion Llywodraeth Cymru ac mae'n bleser nodi y derbyniodd y Bil Iechyd y Cyhoedd gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr 16 Mai 2017.[3]

Mae'r awdur wedi ceisio bod yn ddiduedd wrth adolygu'r mater hwn ac mae'n credu bod yr AEI hwn yn dangos bod yr achos ar gyfer Toiledau y mae modd i'r Cyhoedd eu Defnyddio yn amlwg. Fel gwarcheidwaid cymunedol, mae gan awdurdodau lleol rôl amhrisiadwy wrth sicrhau bod gan unigolion gyfleusterau toiled digonol pan fyddant i ffwrdd o'u cartrefi, ond nid yw, o reidrwydd yn dilyn mai nhw ddylai fod unig ddarparwyr y gwasanaethau hyn. Roedd cwmpas yr AEI hwn wedi'i gyfyngu i Ynys Môn ac efallai nad yw ei gasgliadau'n berthnasol i feysydd eraill lle mae'r proffil cymunedol a / neu'r anghenion yn wahanol. O'r herwydd, mae'n ddealladwy os yw sefydliadau neu unigolion yn anghytuno â'i gasgliadau. Yn wir, gallai hyn ysgogi eraill i gynnal eu Hasesiadau eu hunain o'r Effaith ar Iechyd a bydd ein dealltwriaeth o'r rôl werthfawr y bydd y cyfleusterau hyn yn ei chwarae yn ein bywydau yn tyfu - yng ngeiriau arbenigwr blaenllaw mewn AEI, *"after all, HIA is an iterative process"*.[4]

3. http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/170516bill/?lang=en
4. Liz Green, Principal Health Impact Assessment Development Officer, WHIASU (2016).

# 10 Cyfeirnodau


ADRAN DROS GYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL, 2008. *Improving Public Access to Toilets Guidance on Community Toilet Schemes and SatLav*. Ar gael o:- *https://www.atcm.org/about_atcm/purple-flag-files/files/17-Public_acces_to_toilets*
Cafwyd mynediad ato 22ain o Ragfyr 2016.

AGE CYMRU, Mai 2016. *Public Policy Statement The built environment in communities.* Ar gael o:- *http://www.ageuk.org.uk/brandpartnerglobal/swanseabayvpp/built%20environment%20in%20communities%20policy%20statement%20-%20may%202016.pdf?epslanguage=en-gb*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

ARSYLLFA IECHYD Y CYHOEDD CYMRU, 2010-14. *Measuring Inequalities - Trends in mortality and life expectancy in the Isle of Anglesey.* Ar gael o: http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/($All)/C1BDA825B5B85D4F8025795E00578BF8/$File/InequalitiesProfilesLA_IsleofAnglesey_v1.pdf?OpenElement
Cafwyd mynediad ato 20fed o Awst 2013.

ARSYLLFA IECHYD Y CYHOEDD CYMRU, 2016. *Life Expectancy at birth Wales and Local Authorities 2010-2014*. Ar gael o: http://public.tableau.com/profile/publichealthwalesobservatory#!/vizhome/PHOFInterimReportingTool/Home&:tabs=no
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR, Ebrill 2012. *Wider determinants of health.*
Ar gael o:
*http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/pubHObservatoryProjDocs.nsf/815f97434d281f8b80257508003d3986/06b2bef41d56da06802579e400350ee4/$FILE/WDoH_report_BetsiCadwaladr_v1.pdf*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR, 2013. *2011 Census – A snapshot of key health, employment and qualification indicators.* Ar gael o:
http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/($All)/3061D9D808D768EF80257B3C004C607B/$File/2011%20Census%20Profile%20BCU_v2a.pdf?OpenElement
Cafwyd mynediad ato 12fed o Orffennaf 2013.

CAMPAIGN TO END LONELINESS CONNECTIONS IN OLDER AGE, 2016. *Threat to Health.* Ar gael o:-
http://www.campaigntoendloneliness.org/threat-to-health/
Cafwyd mynediad ato 22ain o Ragfyr 2016.
CRISIS, 2016. *Rough Sleeping*. Ar gael o:-
http://www.crisis.org.uk/pages/rough-sleeping.html
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY, 2013. Ystadegau Cyfrifiad Allweddol *2011* Ar gael o:
http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/597/2011_Census_area_profile__Anglesey.pdf
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

CYNGOR GWYNEDD, Gorffennaf 2011. *Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol(AAS).Adroddiad Cwmpasu* Gorffennaf *2011*. Ar gael o:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Appraisals-and-Assessments/Scoping-Report.pdf

Cafwyd mynediad at y wefan 21ain o Ragfyr 2016.

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, Mehefin 2014. *Response from the Older People's Commissioner for Wales to the Welsh Government consultation on proposals for a Public Health Bill.* Ar gael o:-
http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Consultation_Responses/140624_-_Response_from_the_Older_Peoples_Commissioner_for_Wales_to_the_Welsh_Government_consultation_on_proposals_for_a_Public_Health_Bill.sflb.ashx

Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, Medi 2015. *Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).* Ar gael o:-
http://www.senedd.assembly.wales/documents/s500002656/PHB%2032%20Older%20Peoples%20Commissioner%20for%20Wales.pdf
Cafwyd mynediad ato 22ain o Ragfyr 2016.

CYMORTH I'R HENOED, 2007. *Nowhere to go - Public Toilet Provision in the UK*. Ar gael o:-
http://www.ageuk.org.uk/documents/en-gb/for-professionals/research/nowhere%20to%20go%20public%20toilet%20provision%20(2007)_pro.pdf?dtrk=true
Cafwyd mynediad ato 22ain o Ragfyr 2016.

CYMORTH I'R HENOED YNG NGHYMRU, 2009. *Public Toilet Closures.* Ar gael o:-
http://www.ageuk.org.uk/cymru/professional-resources/facts-and-figures-about-older-people/public-toilet-closures/
Cafwyd mynediad ato 26ain o Ragfyr 2016.

CYNGOR SIR YNYS MÔN, Mawrth 2009. *Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd*
Dogfen fewnol nad yw wedi'i chyhoeddi CSYM, dogfennau tebyg ar gael yn:-
http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/522/Additional%20Licencing%20HIA%20Final.pdf
Cafwyd mynediad ato 23ain o Fai 2017.

CYNGOR SIR YNYS MÔN,Rhagfyr 2011. *Darparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn yn y dyfodol – Adroddiad Drafft y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol*. Ar gael o:-
http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2011/12/08/adroddiad-sgriwtini-toiledau-cyhoeddus.pdf
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.
CYNGOR SIR YNYS MÔN, 2016. *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Heneiddio'n Dda yn Ynys Môn 2014 -2019.* Ar gael o:-
http://www.ynysmon.gov.uk/jjournals/e/s/g/Strategaeth-Pobl-Hyn-Cymru-terfynol.pdf
Cafwyd mynediad ato 24ain o Ragfyr 2016.

CYNGOR SIR YNYS MÔN, Mai 2016. *Toiledau cyhoeddus a gynigir i Gynghorau Tref a Chymuned* Ar gael o:-
*http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/newyddion/datganiadau-ir-wasg-2016/mai-2016/toiledau-cyffredin-yn-cael-eu-cynnig-i-gynghorau-tref-a-chymuned/128783.article?redirect=false*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, Ebrill 2008. *Key statistics for Isle of Anglesey*
Ar gael o: http://www.assemblywales.org/anglesey.pdf
Cafwyd mynediad ato 19eg o Awst 2013.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, Mawrth 2012. *Goblygiadau iechyd cyhoeddus o gyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol - adroddiad tystiolaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol*
Ar gael o:http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2572
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

CVDRIVER. Mawrth 2016. *Do you realise the dangers of driving while dehydrated?*

DAHLGREN, G.; WHITEHEAD, M., 1991. Policies and strategies to promote social equality in health. *Stockholm, Institute for Future Studies*. Dyfynnwyd yn Health Impact Assessment a practical guide, 2012. *Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru*

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Llundain: Y Llyfrfa
Ar gael o:
*http://thewaleswewant.co.uk/about/well-being-future-generations-wales-act-2015*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

DOHERTY, J.; BUSCH-GEERTSEMA, V.; KARPUSKIENE, V.; KORHONEN, J.; O'SULLIVAN, E.; SAHLIN, I.; TOSI, A.; PETRILLO, A and WYGNANSKA, J., 2008, Homelessness and Exclusion: Regulating public space in European Cities, *Surveillance Studies Network*. Ar gael o:-

http://www.surveillance-and-society.org/articles5(3)/homelessness.pdf
Cafwyd mynediad ato 20fed o Ragfyr 2016.

ELLIOT, E.; HARROP, E. and WILLIAMS, G.H., 2010. Contesting the science: public health knowledge and action in controversial land-use developments, dyfynnwyd yn BENNETT, P.; CALMAN, K.; CURTIS, S. and FISHCHBACHER-SMITH, D.(eds) *Risk Communication and Public Health (Second edition),* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

ENCAMS, 2008. *Written evidence to the Select Committee on Communities and Local Government Committee into the provision of public toilets.* Ar gael o:-
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmcomloc/636/636we17.htm
Cafwyd mynediad ato 22ain o Ragfyr 2016.

FFORWM YMATALIAETH CYMRU GYFAN, Medi 2011. *The indignity of incontinence: Pecyn gwybodaeth leol i Aelodau Cynulliad.* Ar gael o:-
http://www.senedd.assembly.wales/documents/s43157/Consultation%20response%20RC%2016%20-%20All%20Wales%20Continence%20Forum%20AWCF.pdf
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

FLUSH – PUBLIC TOILET FINDER. Ar gael o:-
https://apkpure.com/flush-public-toilet-finder/toilet.samruston.com.toilet
Cafwyd mynediad ato 23ain o Fai 2017.

GREED,C., 2006. The role of the public toilet: Pathogen transmitter or health facilitator? *Building Service Engineering* 27(2):127-139. Ar gael o:-
https://www.researchgate.net/publication/245382911_The_role_of_the_public_toilet_Pathogen_transmitter_or_health_facilitator
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

KEMP, G., 2012. Closing public toilets: Is this the healthy way forward? *Cymdeithas Toiledau Prydain.* Ar gael o:-
http://tollcrosscc.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/CLOSING-PUBLIC-TOILETS-handout.pdf

Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LAVIOLETTE, P., 2011. *Everybody Goes: Designing Age-Friendly Public Toilet* Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016. *http://www.materialworldblog.com/2011/05/everybody-goes-designing-age-friendly-public-toilet-solutions/*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LEASING OPTIONS, 2016. *Dehydrated driving... What's really happening on Britain's roads?* Ar gael o:-https://www.leasingoptions.co.uk/news/dehydrated-driving-whats-really-happening-on-britains-roads/4543
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, 2016. *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014-Canllaw ar ei Ddefnyddio. Ar* gael o: *http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, Mai 2011. *Regional Economic & Labour Market Profile – North Wales – Tachwedd 2016.* Ar gael o: *http://gov.wales/statistics-and-research/regional-economic-labour-market-profiles/?skip=1&lang=cy*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, Chwefror 2014. Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff (2014). Ar gael o: *http://gov.wales/docs/desh/publications/140228technical-advice-note-21-en.pdf*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, Ebrill 2014. *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig. Ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Mesur y Cyhoedd.* Ar gael o: *http://gov.wales/docs/phhs/consultation/140402consultationcy.pdf*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, Medi 2016. *Amcanestyniadau poblogaeth Awdurdodau Lleol ar gyfer Ynys Môn (seiliedig ar 2014).* Ar gael o:-

https://statswales.llyw.cymru/Catalogue/Population-and Migration/Population/Projections/Local-Authority
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

LLYWODRAETH CYMRU, Tachwedd 2016. *Bil Iechyd y Cyhoedd 2016 Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol. Ar gael o:-* http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10796-em/pri-ld10796-em-w.pdf
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALlC), 2014. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

OWEN, R., 2008. Holyhead Shelter has been a "Godsend" for homeless. *Daily Post* 23ain o Ionawr 2008. Ar gael o: http://www.dailypost.co.uk/news/local-news/holyhead-shelter-been-godsend-homeless-2850495
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS RAGORIAETH GLINIGOL, 2010. *Lower urinary tract symptoms in men: management Clinical guideline.* Ar gael o: nice.org.uk/guidance/cg97
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

SEFYDLIAD IECHYD Y BYD, 1948. Rhagymadrodd i Gyfansoddiad Sefydliad Iechyd y Byd fel y'i mabwysiadwyd gan y Genhadledd Iechyd Rhyngwladol, Efrog Newydd, 19 – 22 Mehefin, 1946; llofnodwyd 22 Orffennaf gan gynrychiolwyr 61 talaith. *Official Records of the World Health Organisation, no.2,pp.100 entered into force on 7 April 1948*, dyfynnwyd yn Health Impact Assessment a practical guide. Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, 2012, Caerdydd.

SEFYDLIAD Y BLEDREN A'R COLUDDYN, 2016. Cerdyn *Just can't wait*. Ar gael o:- https://www.bladderandbowelfoundation.org/
Cafwyd mynediad ato 23ain o Ragfyr 2016.

SENEDD POBL HŶN CYMRU, 2011. *P for People Campaign.* Ar gael o: *http://www.welshsenateofolderpeople.com/campaigns.htm*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

SHELTER, 2007. *Reaching Out - a consultation with street homeless people 10 years after the launch of the Rough Sleepers Unit,* Llundain, Ar gael o: *http://england.shelter.org.uk/campaigns_/why_we_campaign/tackling_homelessness/what_is_homelessness_like#_ref5*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

STANWELL-SMITH, R., 2010. *Public toilets down the drain? Why privies are a public health concern.* London School of Hygiene and Tropical Medicine.
Tindall, C., 2016. Got the bottle. *Commercial Motors Magazine* (31/03/16).

SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL, 2016. *Indices of Deprivation across the UK*. Ar gael o:- *http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/Info.do?m=0&s=1481625781312&enc=1&page=analysisandguidance/analysisarticles/indices-of-deprivation.htm&nsjs=true&nsck=false&nssvg=false&nswid=1440#Overview*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

TŶ'R CYFFREDIN, 22 Hydref 2008. *The Provision of Public Toilets-Twelfth Report of Session 2007–08 Report, together with formal minutes, oral and written evidence Ordered by The House of Commons.* Llundain: Y Llyfrfa Gyfyngedig. Ar gael o:- *https://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmcomloc/636/636.pdf*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

THE GREAT BRITISH PUBLIC TOILET MAP. Ar gael o:- https://greatbritishpublictoiletmap.rca.ac.uk/
Cafwyd mynediad ato 23ain o Fai 2017.

Tindall, C., 2016. Got the bottle. *Commercial Motors Magazine* (31/03/16).

TOILET FINDER. Ar gael o:-
http://www.toiletfinder.org/
Cafwyd mynediad ato 23ain o Fai 2017.

UNED GYMORTH ASESU'R EFFAITH AR IECHYD CYMRU, 2012. *Health Impact Assessment a practical guide,* Cardiff. Ar gael o:
*http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=522&pid=63782*
Cafwyd mynediad ato 13eg o Ragfyr 2013.

Y GANOLFAN EWROPEAIDD AR GYFER POLISI IECHYD, 1999. *Health Impact Assessment: Main concepts and suggested approach (Gothenburg Consensus),* Brussels wedi'i ddyfynnu yn 2012. *Health Impact Assessment a practical guide,* Caerdydd. UNED GYMORTH ASESU'R EFFAITH AR IECHYD CYMRU

YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS GYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL, Ionawr 2009. *Government Response to the Communities and Local Government Committee Report on the Provision of Public Toilets* Ionawr *2009.* Y Llyfrfa. Ar gael o:
*https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/243340/7530.pdf*
Cafwyd mynediad ato 21ain o Ragfyr 2016.

# Atodiad 1

**Rhaglen Waith.**

Cam Un: Sefydlu'r prosiect.

- Gwneud gwaith ymchwil rhagarweiniol i'r materion sy'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus yn enwedig o ran Strategaethau Toiledau Cyhoeddus.
- Deall a datblygu pwnc yr AEI.
- Cyfarfod â'r Uwch-swyddog Rheoli Gwastraff i fireinio'r uchod a chael dealltwriaeth o ddarparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn a "materion".
- Sefydlu aelodaeth graidd y Grŵp Llywio.
- Trefnu cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Llywio i gytuno ar aelodaeth a rhoi trosolwg o'r prosiect.

Cam Dau: Ymarfer Cwmpasu ac Ymgysylltu â'r Gymuned

- Cyfarfod cychwynnol y Grŵp Llywio llawn. Penodi Cadeirydd. Cyflwyniad ar beth yw AEI a chwmpasu'r ffordd ymlaen. Cytuno ar Ymgysylltu â'r Gymuned e.e. Holiadur a gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid lleol yn seiliedig ar Becyn Cymorth AEI Ynys Môn.
- Trefnu gweithdy yn seiliedig ar Becyn Cymorth Ynys Môn a chynnal Asesiad Cyfranogol a Chyflym o'r Effaith ar Iechyd.

Cam Tri: Tystiolaeth a Dadansoddiad.

- Cyfarfod o'r Grŵp Llywio i drafod canlyniad y gweithdy, cytuno ar gwmpas yr AEI a nodi unigolion neu sefydliadau a fydd yn cael eu cyfweld fel rhan o grwpiau ffocws.
- Cynnal adolygiad o lenyddiaeth, nodi'r proffil cymunedol, archwilio tystiolaeth ansoddol / feintiol a chynnal grwpiau ffocws.
- Cyflwyno canfyddiadau'r AEI i'r Grŵp Llywio a chyflwyno dogfen ddrafft i'w hadolygu.

1. http://www.welshsenateofolderpeople.com/Campaigns.htm

Cam Pedwar: Ysgrifennu'r AEI a'i gyflwyno.

- Cyfnod adolygu a pharatoi'r dogfennau terfynol
- Cyflwyno AEI wedi'i gwblhau i WHIASU.
- Cyflwyniad Power Point Byr i WHIASU.

## Atodiad1: Rhaglen AEI Ddrafft.

| Gweithgarwch yn 2015 / 2016 | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwneud gwaith ymchwil rhagarweiniol i'r materion sy'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus yn enwedig o ran Strategaethau Toiledau Cyhoeddus. | 1 | | | | | | | |
| Deall a datblygu pwnc yr AEI. | 1 | | | | | | | |
| Cyfarfod â'r Uwch-swyddog Rheoli Gwastraff i fireinio'r uchod a chael dealltwriaeth o ddarparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn a "materion". | 1 | | | | | | | |
| Sefydlu aelodaeth graidd y Grŵp Llywio. | 1 | | | | | | | |
| Trefnu cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio i gytuno ar aelodaeth a rhoi trosolwg o'r prosiect. | | 1 | | | | | | |
| Cyfarfod cychwynnol y Grŵp Llywio llawn. Penodi Cadeirydd. Cyflwyniad ar beth yw AEI a chwmpasu'r ffordd ymlaen. Cytuno ar Ymgysylltu â'r Gymuned e.e. Holiadur a gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid lleol yn seiliedig ar Becyn Cymorth AEI Ynys Môn. | | | 2 | | | | | |
| Trefnu gweithdy yn seiliedig ar Becyn Cymorth Ynys Môn a chynnal Asesiad Cyfranogol a Chyflym o'r Effaith ar Iechyd | | | 2 | | | | | |
| Cyfarfod y Grŵp Llywio i drafod canlyniad y gweithdy, cytuno ar gwmpas yr AEI a nodi unigolion neu sefydliadau a fydd yn cael eu cyfweld fel rhan o grwpiau ffocws. | | | | 3 | | | | |
| Cynnal adolygiad o lenyddiaeth, nodi'r proffil cymunedol, archwilio tystiolaeth ansoddol / feintiol a chynnal grwpiau ffocws. | | | | 3 | 3 | 3 | | |
| Cyflwyno canfyddiadau'r AEI i'r Grŵp Llywio a chyflwyno dogfen ddrafft i'w hadolygu. | | | | | | 3 | | |
| Cyfnod adolygu a pharatoi'r dogfennau terfynol | | | | | | 4 | 4 | |
| Cyflwyno AEI wedi'i gwblhau i WHIASU. | | | | | | | | 4 |
| Cyflwyniad Power Point Byr i WHIASU. | | | | | | | | 4 |

# Atodiad 2

Dogfen yn manylu ar ganlyniadau'r Gweithdy Cyfranogol, y19eg o Ebrill 2016

| Teitl y rhaglen, y polisi neu'r prosiect |
|---|
| **Yr effeithiau yn sgil gostyngiad yn nifer y toiledau y mae modd i'r cyhoeddeu defnyddio ac a ddarperir gan y sector cyhoeddus - AEI** |
| **Disgrifiad (nodau ac amcanion allweddol):** Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn rhoi Pŵer i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, ond nid yw yn eu gorfodi i wneud hynny. O'r herwydd, wrth wynebu'r angen i arbed miliynau o bunnoedd o'i gyllideb flynyddol, mae Cyngor Sir Ynys Môn (fel llawer o awdurdodau yn yr un sefyllfa) wedi'i gorfodi i ystyried cau llawer o'i doiledau cyhoeddus. Gallai cau Toiledau Cyhoeddus fod â chanlyniadau anfwriadol, megis baeddu strydoedd neu arwahanrwydd (ee grwpiau bregus sy'n teimlo na allant fynd allan heb sicrwydd bod yno doiledau cyhoeddus y gallant eu defnyddio). O'r herwydd, trefnwyd gweithdy ar asesiad rhagarweiniol a chyflym o'r effaith ar iechyd er mwyn edrych ar barhau i ddarparu toiledau cyhoeddus ar Ynys Môn a gallai hyn gefnogi'r asesiad o anghenion y strategaeth toiledau cyhoeddus a gynigir gan y Bil Iechyd y Cyhoedd. |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| 1a | Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran (e.e. plant a phobl ifanc, oedolion 18-64, pobl hŷn) | | | | | X | | <u>Gallai pobl hŷn:</u><br>• Fod angen defnyddio'r toiled yn amlach;<br>• Bod â chyflyrau meddygol sy'n gofyn iddynt ddefnyddio'r toiled yn amlach;<br>• Gymryd meddyginiaeth sy'n achosi iddynt fynd i'r toiled yn amlach;<br>• Bod â llai o symudedd ac felly fethu mynd i gymaint o doiledau, e.e. agosatrwydd toiledau.<br>Bydd nifer y bobl 75 oed a hŷn yn dyblu dros y 15 mlynedd nesaf. Efallai y bydd pobl hŷn yn ofni mynd i lefydd lle nad oes cymaint o doiledau y mae modd iddynt eu defnyddio/ sydd ar gael, rhywbeth allai arwain at unigrwydd ac arwahanrwydd.<br><br>• <u>Plant a phobl ifanc:</u>Gofyn cael cyfleusterau newid babis arnynt; a |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| | | | | | | | | • Cyfleusterau ar gyfer plant. |
| 1b | Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm (e.e. teuluoedd neu unigolion ar incwm isel / economaidd anweithgar / di-waith / methu gweithio oherwydd salwch) | | | | | X | | Gallai grwpiau incwm isel:<br>• Fod yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus ac felly fethu cael at gymaint o gyfleusterau;<br>• Bod yn llai tebygol o allu fforddio cerbyd i gael at gyfleusterau pan fyddant allan;<br>• Bod yn llai tebygol o allu fforddio talu am fwyd neu ddiod os ydych chi'n defnyddio'r cyfleusterau mewn caffi neu fwyty, a allai arwain at deimladau annifyr ac eithrio cymdeithasol. |
| 1c | Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall (e.e. pobl ag anableddau / grwpiau iechyd meddwl / gofalwyr / grwpiau ffoaduriaid / pobl sy'n chwilio am loches / teithwyr / teuluoedd rhiant sengl / pobl lesbiaidd a hoyw / grwpiau ethnig, ieithyddol a diwylliannol / grwpiau crefyddol) | | | | | X | | Galail pobl ag anableddau dysgu, gweld a chlywed wynebu rhwystrau iaith / ffactorau cyfathrebu - angen ystyried sut i gyfathrebu bod toiledau ar gael.<br>Bydd dementia yn cynyddu mewn pobl hŷn felly bydd angen cynyddol am amgylcheddau sy'n ystyriol o bobl â dementia.<br>Angen asesu addasrwydd toiledau ar gyfer pobl ag anableddau, megis lle ar gyfer cadeiriau olwyn, rampiau, canllawiau ac ati. Cyfleusterau newid ar gyfer unrhyw oedran.<br>Ar gyfer y dyfodol, dylid bod safon ddylunio ar gyfer toiledau i ymgorffori'r ffactorau hyn yn ystod y cam dylunio.<br>Pobl ddigartref - bydd codi tâl i'w ddefnyddio / llai o doiledau ar gael yn cael effaith arnynt. |
| 1d | Materion daearyddol (e.e. pobl sy'n byw mewn ardaloedd y gwyddys eu bod yn arddangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael / pobl | | X | | X | | | Gall annog ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd anghysbell. Cymunedau anghysbell lle mae pobl yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>Efallai y bydd hyn yn cael effaith ar dwristiaeth gan na |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| | sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell / pobl nad ydynt yn gallu cael at wasanaethau a chyfleusterau) | | | | | | | fydd twristiaid yn gallu defnyddio traethau, cefn gwlad a thirlun i'w llawn botensial oni bai bod toiledau ar gael. |
| **Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i:** | | **Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch** | | | | | | |
| **2. Ffordd o Fyw Unigol?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol/ Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| 2a | Deiet | | | | | X | | Dadhydradu - cyndynrwydd i yfed os nad oes modd defnyddio toiledau<br>Efallai y bydd gyrwyr lorïau yn gyndyn o yfed fel nad oes rhaid stopio mor aml. Gall hyn achosi iddyn nhw ddadhydradu – rhywbeth all arwain at lai o ganolbwyntio a mwy o berygl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd.<br>Gallai pobl hŷn ddadhydradu a gall hyn arwain at heintiau wrinol. Gall bod yn ddadhydradol hefyd waethygu rhai afiechydon. |
| 2b | Gweithgaredd corfforol | | | | | X | | Efallai y bydd pobl hŷn yn ofni mynd am dro lle nad oes toiledau ar gael, a gallai arwain at lai o weithgaredd corfforol a mwy o berygl o gael codwm.<br>Sefyllfa economaidd ehangach (twristiaeth) - Gallai atal pobl rhag dod yma i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden / corfforol. |
| 2c | Defnyddio alcohol, sigaréts, cyffuriau nad ydynt yn rhai presgripsiwn | | X | | | | | + Gallai pobl fod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn mewn toiledau cyhoeddus sy'n fwy anghysbell, yn hytrach na thoiledau mewn caffis (cyffuriau).<br>- Agwedd negyddol o bosib, fodd bynnag, yw eu bod yn cymryd cyffuriau mewn mannau eraill ac yn gadael offer miniog yn yr awyr agored.<br>Lliniaru - goleuadau glas a chodi tâl i'w defnyddio. |
| 2d | Gweithgaredd rhywiol | | X | | | | | Gall toiledau neu doiledau cyhoeddus anghysbell mewn rhai lleoliadau ddenu gweithgaredd rhywiol / rhyw |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| | | | | | | | | anniogel. |
| 2e | Gweithgaredd arall lle cymerir risg | | | | X | | | Llai o gyfleusterau ar gyfer golchi dwylo.<br>Pan fydd cyfleusterau ar gau gallant ddenu fandaliaeth a allai arwain at anaf. |
| **Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hyn yn ei wneud i:** | | **Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch:** | | | | | | |
| **3. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar Iechyd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 3a | Trefn a rolau teuluol | | | | | | X | Ni fyddai penderfyniad unfrydol oedd yn gostwng nifer y cyfleusterau oedd ar gael yn cael effaith ar p'un a fyddai teulu'n mynd rhywle ai peidio. |
| 3b | Pŵer a dylanwad y dinesydd | | | | | X | | P'un a yw'r cyhoedd yn cael dweud eu dweud wrth gau cyfleusterau (ymgynghori, ymgyrchoedd ac ati). Gall bod mwy o ddifaterwch mewn rhai ardaloedd - ffactorau daearyddol (Gallai'r toiledau sy'n cau fod yn agos at farchnad leol boblogaidd, megis yn Amlwch).<br>Negydd cryf os na chynhelir yr ymgynghoriad yn gywir. Gall arwain at gymunedau'n cael yn flin efo'r Cyngor a cholli hyder. |
| 3c | Cefnogaeth y gymdeithas ehangach, rhwydweithiau cymdeithasol a bod yn gymydog da | | X | | X | | | Gallai cymunedau ddod at ei gilydd i ofalu am doiled cyhoeddus. Gwirfoddolwyr i lanhau'r toiledau. Cael toiledau y codir amdanynt a gellir defnyddio'r arian i brynu sebon a phapur toiled. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn feichus i gymunedau bach neu efallai na fydd pobl yn cael eu cymell i ofalu am y cyfleusterau.<br>Negydd posib: gallai nifer lai o gyfleusterau arwain at ostyngiad yn y bobl sy'n mynd allan ac yn cymdeithasu. |
| 3d | Hunaniaeth gymunedol ac ymdeimlad o berthyn | | X | | X | | | Argraff dda i gael toiledau da. Yn dibynnu ar gyfleusterau eraill yn y gymuned. Efallai y bydd cymunedau / y cyhoedd yn teimlo fod cyfleuster arall wedi'i dynnu oddi |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar anghydraddoldeb:** |
| | | | | | | | | wrthynt, gostyngiad arall yn y ddarpariaeth gwasanaeth. Cyfle i'r cyngor 'ei wneud yn dda', e.e. ymgynghori â'r cyhoedd yn dda, ymgysylltu a thrafod, llywio'r gwasanaeth (yr ap symudol), ceisio cael bwytai i weld y budd. Ar y llaw arall - Argraff ddrwg os yw'r toiledau mewn cyflwr gwael. |
| 3e | Rhaniad mewn cymunedau a phwysau cymheiriaid | | | | X | | | Gallai rhai trigolion sy'n byw ger toiledau cyhoeddus fod yn gobeithio y byddant yn cau oherwydd fandaliaeth, sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn ddolur i'r llygad. Rhaniad yn y gymuned rhwng y rhai y mae eisiau / angen y toiledau arnynt a'r rhai nad oes (trigolion lleol o bosib). Ofn trosedd |
| 3f | Arwahanrwydd cymdeithasol | | | | | X | | Fel yr uchod - yn llai tebygol o fynd allan os oes llai o doiledau. |
| 3g | Ethos diwylliannol ac ysbrydol | | | | | | X | Amherthnasol |
| 3h | Hiliaeth | | | | | | X | Amherthnasol |
| 3i | Eithrio cymdeithasol arall | | | | | | X | Digartrefedd - codi tâl i'w ddefnyddio. |
| 3j | Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac Ofn Trosedd | | X | | X | | | Cadarnhaol- fandaliaeth.<br>Negyddol - ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd diffyg darpariaeth. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol symud i rywle arall.<br>Economi gyda'r nos.<br>Llety gweithwyr Caergybi / Amlwch. |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch : | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. Amgylchiadau byw ac amgylcheddol sy''n cael effaith ar iechyd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 4a | Dyluniad y gymdogaeth a /neu'r amgylchedd adeiliedig | | X | | | | | Cadarnhaol: Nid yw rhai toiledau yn ddeniadol iawn. Denu fandaliaeth. Gellir eu gwerthu ymlaen.<br>Negydd posib: Os cânt eu cau, efallai na fyddant yn gwerthu a dim ond yn sefyll yno.<br>Lliniaru: Ar gyfer dyluniad yn y dyfodol, gwneud y toiledau'n ddeniadol. Ychwanegu ffactorau i atal fandaliaeth, megis deunydd gwrthddringo. |
| 4b | Tai a / neu'r tu mewn iddynt | | X | | | | | Troi toiledau'n dai.<br>Gall cau toiledau cyhoeddus arwain at lai o fannau parcio ceir, byrddau gwybodaeth, raciau beiciau ac ati. |
| 4c | Sŵn a / neu arolwg | | X | | X | | | Cadarnhaol: Llai o fandaliaeth a sŵn.<br>Negyddol: Baeddu strydoedd yn lle hynny neu gallai fandaliaeth symud i rywle arall. |
| 4d | Ansawdd aer a dŵr | | X | | | | | Rhai problemau gyda thanciau septig. Efallai y bydd y rhain yn gollwng i mewn i'r cyflenwad dŵr neu i'r traeth. Edrych ar ansawdd dŵr wrth gynllunio yn y dyfodol. |
| 4e | Pa mor atyniadol yw ardal | | X | | X | | | Cadarnhaol: Ddim yn ddeniadol.<br>Negyddol: Gallai wneud ardal yn llai deniadol i dwristiaeth os na ddarperir toiledau.<br>Lliniaru ar gyfer y dyfodol: sicrhau eu bod yn ddeniadol yn y cam dylunio. |
| 4f | Diogelwch cymunedol | | | X | | | | Er y gall rhai toiledau ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallai eu cau achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhywle arall. Gall fod yn anodd dod o hyd i hyn |

| Pa gyfraniad mae’r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch : | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. Amgylchiadau byw ac amgylcheddol sy’’n cael effaith ar iechyd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 4g | Cael gwared â gwastraff | | | X | | | | Gallai arwain at gynnydd mewn clytiau ac ati yn cael eu taflu i'r amgylchedd. |
| 4h | Peryglon ar y ffyrdd | | | | X | | | Gyrwyr lorïau’n gyrru tra’u bod yn ddadhydradol.<br>Gallai newid clytiau ar ochr y ffordd achosi risg o gael eu taro. Gallai dynnu sylw gyrwyr. Gallai Horizon fod yn fwy o effaith yn y dyfodol. |
| 4i | Peryglon allai greu niwed | | X | | X | | | Offer miniog a baeddu mewn mannau chwarae, parciau a thraethau.<br>Lliniaru ar gyfer offer miniog – gellid cael posteri mewn toiledau yn dweud 'ewch i’r fferyllfa leol'. |
| 4j | Ansawdd a diogelwch mannau chwarae | | | | X | | | Baeddu mannau chwarae, parciau, traethau ayb.<br>Clytiau’n cael eu taflu i'r amgylchedd.<br>Lliniaru - sicrhau bod biniau'n cael eu gwagio’n rheolaidd. Darparu biniau. Casglu cudd-wybodaeth. |

| Pa gyfraniad mae’r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Amgylchiadau economaidd sy’n cael effaith ar iechyd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 5a | Diweithdra a / neu anweithgarwch Economaidd | | | | | X | | Negyddol: Gall glanhawyr a chontractwyr (megis trydanwyr a phlymwyr) golli eu swyddi. Gallai cau toiledau gael effaith negyddol ar gaffis a bwytai lleol. Gallai gael effaith ar dwristiaeth. Nid oes modd eu defnyddio a rhoddir yr argraff o beidio â bod yn groesawgar. Cyrchfan ddrud. Cystadlu’n fyd-eang, gallai pobl fynd i rywle arall. |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Amgylchiadau economaidd sy'n cael effaith ar iechyd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| | | | | | | | | Lliniaru: Hyrwyddo toiledau cyhoeddus. Marchnata cyfleusterau sy'n ystyrlon o deuluoedd ar gyfer y dyfodol. Angen amgylchedd croesawgar ar gyfer economi'r dyfodol. Mae demograffeg yn amrywio ar yr ynys, e.e. gellid bod mwy o deuluoedd ar draeth Benllech, gwersyllwyr. Felly, gallai gofynion y cyfleusterau amrywio yn unol â hynny. |
| 5b | Incwm | | | | X | | | Gweler yr uchod. Anodd i'w faintioli. |
| 5c | Math y gyflogaeth | | | | | | X | Amherthnasol |
| 5d | Amgylchiadau'r gweithle | | | | | X | | Ymwelwyr iechyd, peripatetig, postmyn ac ati |
| 5e | Caffael | | | | | | X | Amherthnasol |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwylliedig y gweithgarwch: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6. Mynediad at y gwasanaethau hyn a'u hansawdd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol/ Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 6a | Gwasanaethau meddygol a gofal iechyd | | X | | | | | Cadarnhaol: Mae ganddynt gynulleidfaoedd sy'n gorfod gwrando - gellir defnyddio ymgyrchoedd posteri a hysbysebu i drosglwyddo negeseuon. |
| 6b | Gwasanaethau gofalu eraill | | | | X | | | Negyddol: Gweithwyr gofal iechyd eraill yn methu defnyddio'r gwasanaethau hyn. |
| 6c | Cyngor gyda gyrfa | | | | | | X | Amherthnasol |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwylliedig y gweithgarwch: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6. Mynediad at y gwasanaethau hyn a'u hansawdd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol/ Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 6d | Siopau a gwasanaethau masnachol | | X | | X | | | Cadarnhaol: gall rhai caffis weld defnyddio toiledau fel rhywbeth cadarnhaol gan y gallent wario arian.<br>Negyddol: efallai na fydd rhai caffis yn hoffi i'r cyhoedd ddefnyddio'r toiledau. Efallai y caiff arwyddion sy'n dweud bod y cyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid yn unig eu hystyried yn ddigroeso.<br>**Siarter** |
| 6e | Mwynderau cyhoeddus | | | | | X | | Negyddol iawn |
| 6f | Cludiant | | | | | X | | Gall bysus pleser gynllunio'u llwybr yn ôl cyfleusterau toiled. Llongau mordaith. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dibynnu p'un a ydyw pobl yn teimlo'n hyderus bod cyfleusterau ar gael iddynt. Hybs trafnidiaeth. Dim toiledau yng ngorsaf drenau Caergybi. |
| 6g | Addysg a hyfforddiant | | | | | | X | Amherthnasol |
| 6h | Technoleg gwybodaeth | | | X | | | | Apiau symudol gyda gwybodaeth am leoliadau toiledau. Gellid cynnwys a yw'r rhain yn addas ar gyfer pobl ag anableddau ac a ydynt yn rhad ac am ddim. Dim ond yn gadarnhaol os oes gennych ffôn a signal. Mae'n allweddol ar gyfer 3G neu 4G fel y gall apiau weithio. Gellid defnyddio neu hyrwyddo apiau cenedlaethol (Gwnewch yn siŵr bod ein toiledau ar y apiau hyn a'u bod yn gyfredol). |

| Pa gyfraniad mae’r gweithgarwch hwn yn ei wneud i: | | Effaith ddisgwyliedig y gweithgarwch : | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral** | **-** | **- -** | **Amherth** | **Tystiolaeth ategol / Effaith ar Anghydraddoldeb:** |
| 7a | Polisïau’r llywodraeth | | | | | X | | Mae angen mwynderau, mae cau'r rhain yn mynd yn groes i bolisi cyhoeddus. Partneriaeth ar gyfer twf, rheoli cyrchfannau, ffyniant economaidd, y ddeddf gwasanaethau cymdeithasol, datganiad Dulyn ac ati. |
| 7b | Cynnyrch Domestic Gros | | | | X | | | Effaith negyddol o bosib |
| 7c | Datblygu’r Economi (gwledig a threfol) | | | | X | | | Fel yr uchod |
| 7d | Materion Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb | | | | X | | | Grwpiau bregus. Gwneud penderfyniadau heb ymgynghori. |
| 7e | Amrywiaeth Fiolegol | | | | | | X | Amherthnasol |
| 7f | Hinsawdd | | | | | | X | Amherthnasol |
| 7g | Dwyieithrwydd a’r Diwylliant Cymreig | | | | X | | | Posibilrwydd y ceir effaith ar ddiwylliant pentrefi a threfi. |

# Atodiad 3

## E-bost at gwmni cludiant ynghylch y grŵp ffocws.

**Oddi wrth:** Huw Arfon Thomas
**Anfonwyd:** 05 Gorffennaf 2016 15:02
**Pwnc:** Asesiad o Effaith Toiledau Cyhoeddus Ynys Môn ar Iechyd

Rwy'n cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd o Ddarparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn fel rhan o Gwrs Cymhwysedd AEI. Fy ngobaith yw y bydd hyn yn gymorth i Gyngor Sir Ynys Môn mewn unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.

Er bod Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn rhoi Pŵer i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, nid oes dyletswydd arnynt i wneud hynny. O’r herwydd, wrth wynebu'r angen i arbed miliynau o bunnau o'i gyllideb flynyddol, mae Cyngor Sir Ynys Môn (fel sawl awdurdodau yn yr un sefyllfa) wedi'i gorfodi i ystyried cau llawer o'i doiledau cyhoeddus. Mae hwn yn fater cenedlaethol ac mae Cymdeithas Toiledau Prydain yn amcangyfrif bod 40% o doiledau'r DU wedi cau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn unig ac mae’n debygol y bydd mwy’n cau.

Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin adroddiad yn edrych ar Ddarparu Toiledau Cyhoeddus. Un argymhelliad allweddol i'r llywodraeth sy'n deillio o'r adroddiad hwnnw oedd y dylid ei gwneud yn ddyletswydd statudol i bob awdurdod lleol ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn ei ardal. Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb gan ddweud ei bod yn ffafrio dull mwy hyblyg a’i bod yn well ganddi ddatganoli'r mater i Awdurdodau Lleol a Chymunedau i benderfynu arno yn hytrach na’i wneud yn ofynnol. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Strategaethau Toiledau Cyhoeddus ac ymgynghori arnynt.

Roedd Rhan 6 o'r Bil Iechyd y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol, a rhaid oedd iddi gynnwys asesiad o'r angen am doiledau cyhoeddus yn ei ardal, ac mae'n nodi'r camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i gwrdd â’r angen hwnnw. Yn anffodus, ychydig fisoedd yn ôl, ni chafodd y bil hwn gefnogaeth drawsbleidiol a methodd cael ei wneud yn ddeddfwriaeth.

Er nad yw fy ngwasanaeth (Gwarchod y Cyhoedd) yn gyfrifol am ddarparu Toiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn, mae llawer o'r canlyniadau anfwriadol fel baeddu ar strydoedd neu arwahanrwydd (e.e. grwpiau bregus sy'n teimlo nad ydynt yn gallu mynd allan heb sicrwydd

bod toiledau cyhoeddus yno iddynt eu defnyddio) yn themâu iechyd cyhoeddus cyfarwydd. Fel y cyfryw, credais y byddai o fudd i'r awdurdod lleol pe bawn yn cynnal Asesiad Rhagarweiniol o'r Effaith ar Iechyd gan edrych ar barhau i ddarparu toiledau cyhoeddus ar Ynys Môn. Gallai hyn gefnogi'r asesiad o anghenion ar gyfer strategaeth toiledau cyhoeddus a gynigir gan y Bil Iechyd y Cyhoedd os bydd hwn yn troi'n ddeddfwriaeth ryw bryd yn y dyfodol.

Rwyf eisoes wedi cynnal gweithdy ar asesiad cyflym o'r effaith ar iechyd gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl hŷn a mamau â phlant ifanc. Yr hyn yr wyf yn dymuno'i wneud nawr yw cynnal grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr gweithwyr peripatetig a meddyliais yn naturiol am yrwyr lorïau. Nid oes gennyf agenda na chwestiynau gosod fel y cyfryw gan fod gennyf mwy o ddiddordeb mewn clywed eich barn a'r materion y mae eich cydweithwyr wedi dweud wrthych amdanynt. Efallai y byddai'n ddefnyddiol casglu barn cyn i ni gyfarfod ac rwyf wedi awgrymu isod rai o'r cwestiynau y dymunech eu gofyn (neges esboniadol i chi yn unig yw'r sylwadau hynny mewn cromfachau): -

- Beth yw'r problemau fyddwch chi'n eu hwynebu wrth ddefnyddio cyfleusterau cyhoeddus addas pan fyddwch ar y ffordd?

- A oes rhai ardaloedd ar yr ynys sy'n waeth nag eraill, os oes, lle?

- Ar wahân i doiledau cyhoeddus, pa gyfleusterau preifat eraill fyddwch chi'n eu defnyddio'n rheolaidd (*mae gennyf ddiddordeb mewn darganfod pa gyfleusterau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin, e.e. caffis, cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd ac ati*).

- Pa fesurau penodol fyddwch chi'n yn eu cymryd i sicrhau eich bod yn gallu cwrdd â'ch gofynion toiled *(mae gennyf ddiddordeb mewn clywed a oes unrhyw unigolion sy'n cymryd unrhyw gamau penodol i sicrhau nad ydynt mewn sefyllfa lle mae "eisiau mynd" arnynt, megis, a dim toiledau ar gael).*

- Ydych chi'n ymwybodol bod apiau penodol i ganfod toiledau ar gael ar gyfer ffonau symudol. Ydych chi'n defnyddio un ac, os felly, pa un? Os nad ydych, a fyddech chi'n defnyddio un?

Rwy'n gobeithio y gallech chi fod o gymorth ac edrychaf ymlaen at glywed gennych. Rwyf ar gael ar hyn o bryd o'r 19eg – yr 22ain neu'r 26ain a'r 29ain o Orffennaf.

Cofion,

Huw Thomas, CEnvH.
Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd (Diogelwch Amgylcheddol)

# Atodiad 4

## Ymatebion y Grwpiau Ffocws

**1. Grŵp Ffocws gyda Gweithwyr Post**

**<u>Proffil y gweithwyr</u>**

- Swyddfa ddosbarthu Llangefni yw'r unig un ar yr Ynys, roedd eiddo'n flaenorol yn Amlwch a Chaergybi.
- 83 o aelodau o staff y mae tua wyth ohonynt yn fenywod.
- Mae llawer o'r staff yn gweithio yn y gwasanaeth post ers blynyddoedd lawer; O ganlyniad, mae'n weithlu sy'n heneiddio.
- Gall gweithwyr dosbarthu'r post fod i ffwrdd o'r swyddfa ddosbarthu am hyd at 6 awr / diwrnod.
- Ar hyn o bryd mae ganddynt 57 rownd ddanfon ac mae angen iddynt ystyried lles eu staff (gan gynnwys stopiau penodol i fynd i'r toiled) wrth lunio'r rowndiau hyn.
- Cyfleusterau toiledau llawn a chawodydd ar gael yn y swyddfa ddosbarthu, dim cyfleusterau ar faniau a gallai gymryd hyd at hanner awr i deithio'n ôl i'r swyddfa ddosbarthu.
- Mae gan bob gweithiwr dosbarthu gynorthwywyr digidol personol (PDA) sy'n nodi ble maent ac na fyddent yn gwyro'n sylweddol oddi ar eu llwybr i ganfod toiled. Nid ydynt ar hyn o bryd yn ymwybodol o unrhyw un sy'n defnyddio ap canfod toiledau.

**<u>Trafodaeth.</u>**

Mae gallu defnyddio toiledau ar rownd bost yn hanfodol a byddai aelodau o staff yn fwy tebygol o beidio â dod i weithio os oeddynt yn cael trafferthion gyda'u stumog a dim sicrwydd y gallent gael at doiledau. Er bod gweithwyr post yn dod i adnabod trigolion ar eu rowndiau, byddent yn teimlo embaras yn gofyn am gael defnyddio toiled mewn cartref cleient, er bod gan rai doiledau allanol y byddent yn fwy parod i'w defnyddio. Maent yn hynod ymwybodol o gyfleusterau sy'n crebachu. Mae rhai Cyfleusterau Cyhoeddus wedi dechrau codi tâl o 20c ac nid oes gan weithwyr post bob amser newid arnynt. Daw gweithwyr post yn hynod ymwybodol o amseroedd agor cyfleusterau fel garejys, caffis a thafarndai sydd â chyfleusterau toiled gan gynllunio pa bryd y byddant yn stopio i fynd i'r toiled. Ymddengys bod garejys yn adnodd arbennig o werthfawr ac mae'n ymddangos mai toiledau staff yw'r rhain yn hytrach na'r rhai sydd ar gael yn benodol ar gyfer y cyhoedd. Maent yn ymwybodol o gydweithwyr yn y gorffennol oedd â chyflyrau oedd yn gofyn iddynt ddefnyddio cyfleusterau toiled yn amlach, e.e. Byddai IBS a llai o doiledau cyhoeddus y gallai'r cyhoedd eu defnyddio

yn bryder. Mae'r rhai sy'n defnyddio toiledau cyhoeddus yn weddol anhysbys ac nid ydynt yn rhan o grŵp cleientiaid penodol, felly mae'n gwneud y penderfyniad i'w cau'n haws, yn wahanol i ysgolion neu gartrefi preswyl sydd â defnyddwyr diffiniedig. Maent yn ymwybodol y bydd aelodau o staff yn osgoi cael cwpanaid o de o bryd i'w gilydd cyn mynd allan, rhag ofn bod angen toiled arnynt yn ddiweddarach, ond nid ydynt yn ymwybodol o fynd ati'n fwriadol i beidio ag yfed er mwyn osgoi defnyddio'r toiled. Bydd llawer o staff yn gwneud pwynt o fynd i'r toiled cyn gadael y swyddfa ddosbarthu. Nid oeddent yn ymwybodol o'r risg o amseroedd ymateb arafach, colli ffocws a chrampiau yn y cyhyrau sy'n gysylltiedig â dadhydradu fel y nodwyd yn y *CVDNews*. Mae yfed digon yn neges diogelwch a roddir i staff ar ddiwrnodau poeth heulog a gallai pryder ynghylch cael at doiledau rwystro pobl rhag gwneud hynny. Nid oeddent yn ymwybodol a oedd cyfleusterau'r cyngor fel llyfrgelloedd neu ganolfannau hamdden yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan weithwyr dosbarthu'r post a byddai rhestr o doiledau yr oedd modd i'r cyhoedd eu defnyddio o gymorth. Nid oeddent yn ymwybodol o apiau canfod toiledau a theimlent y gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol. Er bod llawer o is-swyddfeydd post o gwmpas yr ynys, mae'r rhain yn bennaf gysylltiedig â chartrefi pobl ac ni fyddent yn barod i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

**2 Grŵp Ffocws gyda Chwmni Cludiant**

**Proffil y gweithwyr**

- 120 o yrwyr lorïau.
- Dynion i gyd.
- Oedran cyfartalog 47/48 oed.
- Mae gyrwyr naill ai'n yrwyr dydd (i ffwrdd am oddeutu tair awr) neu maent i ffwrdd o'r safle am sawl diwrnod ac yn cysgu mewn lori.
- Ar ôl naw awr rhaid iddynt naill ai gyrraedd lle maent yn mynd iddo neu barcio.
- Fel rheol maent yn teithio rhwng Depos neu Ddepos a safleoedd cwsmeriaid.
- Oddeutu 85 -90 o gerbydau nwyddau trwm.

**Trafodaeth**

Fe drafodon ni'r materion sy'n ymwneud â gyrru tra'n ddadhydradol. Nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw sefyllfaoedd lle mae gyrwyr wedi cymryd unrhyw gamau penodol i leihau'r angen i fynd i'r toiled. Fe drafodon ni'r mater o boteli o wrin wedi'u taflu ar hyd yr A55(C). Mae eu gyrwyr lorïau nhw'n gallu defnyddio cyfleusterau cawod a thoiledau yn Nepo Caergybi. Mae'n debyg mai poteli gyrwyr sydd ar y ffordd am sawl diwrnod yw'r poteli a gaiff eu taflu. Bydd angen i'r rhain barcio ar ôl nifer benodol o oriau a gallai hwn fod yn gilfan lle

nad oes yna doiledau. Gellid fod angen cynhwysydd sbwriel penodol yn y porthladd lle gallai gyrwyr lorïau daflu'r poteli iddynt yn hytrach na chreu sbwriel a gallai hyn gyd-fynd ag ymgyrch hysbysebu. Maent wedi cael nifer o ymgyrchoedd ar gadw'n ddadhydradol a chawsom gopi o erthygl "*Got the bottle*", dyddiedig 31 Mawrth 2016. Dynion yw eu gyrwyr lorïau i gyd a'u hoedran ar gyfartaledd yw 47/48. Cawsom drafodaeth ynglŷn â'r ffaith bod angen i ddynion hŷn, yn gyffredinol, ddefnyddio'r toiled yn amlach ac y gallai angen mynd i'r toiled fod yn arwydd o gyflwr sylfaenol. Mae modd iddynt fynd at nyrs iechyd galwedigaethol ac maent wedi cael ymgyrchoedd cyffredinol ar iechyd y galon a ffitrwydd ac ati. Ond o ystyried proffil y gweithiwr gallant hefyd ystyried ymgyrch ar ganser y prostad.

Mae rhewgelloedd eu hunain ar lawer o'u cerbydau nwyddau trwm, ond nid oes cyfleusterau hylendid personol e.e i olchi'r dwylo. Mae'r rhan fwyaf o'r gyrwyr lorïau'n gyfarwydd â'u llwybrau a byddant yn cynllunio eu bod yn gorffwys i gyd-fynd â chyfleusterau toiled. Rhaid iddyn nhw stopio bob pedair awr a hanner. Dyma'r hiraf y gallant ei yrru'n gyfreithlon cyn cymryd seibiant gorfodol o 45 munud, ond fel arfer byddent yn aros yn amlach na hyn. Rhan fwyaf o'r amser byddent yn stopio mewn depos, safleoedd i gwsmeriaid neu feysydd gwasanaeth. Ni fyddai cau toiledau cyhoeddus yn cael effaith fawr arnynt gan nad oes toiledau cyhoeddus ar yr A55 (C). Mae'r gallu i gerbydau nwyddau trwm ddefnyddio toiledau cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig ac mae'r cyfleusterau mewn mannau ar gyfer lorïau neu orsafoedd gwasanaeth traffyrdd yn fwy addas.

Mae gan yrwyr cerbydau nwyddau trwm y cwmni cludiant hwn lwfans a gallant adennill eu costau ar gyfer parcio a chael prydau bwyd mewn mannau ar gyfer lorïau ac ati. Mae "Cyfrif Snap" a ddefnyddir at y diben hwn, gyda gyrwyr yn cael cerdyn ar gyfer yr hyn sy'n daladwy i'r cwmni, rhaid talu arian parod am gyfleusterau eraill sydd yna'n cael ei dalu'n ôl i'r gyrrwr ar ôl iddo gyflwyno derbynneb yn unol â chanllawiau CThEM. Nid yw llawer o yrwyr tramor yn cael eu talu mor dda â'r rhai yn y DU ac nid ydynt yn barod i dalu ymlaen llaw am eu costau, (er mwyn gwneud y mwyaf o'u hincwm) felly nid ydynt yn barod i dalu am aros dros nos lle mae cyfleusterau. Er bod man ar gyfer lorïau yng Nghaergybi, mae'n well gan y gyrwyr lorïau hyn barcio mewn mannau parcio answyddogol ar y stad ddiwydiannol. Yn Ffrainc, mae modd iddynt barcio mewn mannau ar gyfer lorïau yn rhad ac am ddim.

Nid ydynt yn ymwybodol o'r apiau canfod toiledau ond mae hyn yn rhywbeth a allai fod o ddefnydd ond byddai angen i'r toiledau fod mewn ardaloedd y mae modd i gerbydau nwyddau trwm gael atynt.

## 3 Grŵp Ffocws Gyda Chwmni Bysus Pleser

**Proffil y gweithwyr**

- Oddeutu 20 o Yrwyr Bysus Pleser.
- Ar wahân i un ddynes, dynion yw’r gyrwyr bysus pleser i gyd.
- Mae 10 o Yrwyr Bysus Pleser llawn amser.
- Mae nifer o yrwyr bysus pleser yn hŷn ac mae angen iddynt gadw mewn cof hyd y daith a roddwyd i rai unigolion (dim mwy nag un i ddwy awr)
- Mae'r Cwmni’n cymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgarwch, gan gynnwys danfon disgyblion i’r ysgol, Gwasanaeth Wennol i’r Porthladd yn ogystal â theithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Rhaid i yrwyr gael seibiant ar ôl pedair awr a hanner.
- Mae gan y rhan fwyaf o fysus pleser gyfleusterau toiledau ar eu bwrdd ond mae'r rhain yn fach ac nid ydynt yn addas i bawb, gan gynnwys y rheini â gofalwyr neu os oes angen cyfleusterau newid arnynt. Maent yn cynghori pobl i ddefnyddio'r rhain mewn argyfwng yn unig a byddant yn stopio'n rheolaidd.

**Trafodaeth**

Roeddent yn teimlo nad oedd y mater ynghylch darparu toiledau cyhoeddus yn cael ei werthfawrogi ddigon gan fod ganddynt broblemau sylweddol gyda chleientiaid a gyrwyr. Dylid bod mwy o doiledau cyhoeddus hyd yn oed os codir tâl o 20c. Mae angen iddynt fod yn ofalus pa swyddi maent yn eu roi i rai gyrwyr bysiau, yn enwedig rhai hŷn, gan fod angen i rai ddefnyddio'r toiled yn amlach. Gallai hyd yn oed ddanfon disgyblion i’r ysgol gymryd dwy awr a hanner. Mae gan fysus lawer o ffenestri ac mewn tywydd heulog bydd gyrwyr yn mynd yn boeth ac mae angen iddynt aros yn ddadhydradol, rhywbeth a allai olygu bod angen y toiled yn aml arnynt. Nid oeddent yn ymwybodol o'r problemau ynghylch gyrru tra'n ddadhydradol ac nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw sefyllfaoedd lle mae gyrwyr wedi cymryd camau penodol i leihau'r angen i fynd i'r toiled.

Maent yn rhan o lawer o gontractau, gan gynnwys teithiau mordeithwyr. Pe bai toiledau gyda llefydd i barcio bysus pleser mewn mannau tebyg i Cemaes, byddai hyn yn ddefnyddiol a byddai dros 50 o deithwyr bysus pleser yn treulio amser yn y pentref pan na fyddent wedi gwneud hynny o'r blaen. Mae Horizon yn bwriadu codi canolfan ymwelwyr yn Wylfa Newydd a byddai'n ddefnyddiol pe byddai toiledau ar gael yno i’r cyhoedd eu defnyddio.

Mae ganddynt gyfleusterau toiled ar eu holl fysus pleser ac mae cwsmeriaid yn aml yn sicrhau hyn cyn archebu taith neu wyliau. Maent yn awgrymu defnyddio'r toiledau mewn argyfwng yn unig gan bod angen iddynt wagio cynhwysydd y toiled bob diwrnod neu ddau, gan ddibynnu ar fath y daith. Mae'r toiledau yn fach a byddai'n anodd newid ynddynt neu bod â lle ar gyfer ail berson, fel gofalwr. Maent yn stopio'n rheolaidd, ond yn bennaf mewn gorsafoedd gwasanaeth, oherwydd anawsterau parcio e.e. Gwasanaethau yng Nghaer os ydynt yn mynd ar hyd yr M56 neu Llanfair-ym-Muallt ar yr A470. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio sefydliadau masnachol fel siopau bwyd cyflym neu gaffis; fodd bynnag, efallai y bydd pobl yn teimlo'n annifyr yn ddefnyddio cyfleusterau heb brynu unrhyw beth. Roeddent yn cydnabod nad oes unrhyw doiledau ar hyd yr A55 (C) ar draws yr ynys ac maent yn ymwybodol bod poteli wrin wedi'u taflu yn broblem ers sawl blwyddyn. Nid oes llawer o arwyddion ar gyfer toiledau cyhoeddus ond nid oes modd i lawer o'r bysus pleser gael at doiledau cyhoeddus. Byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfleusterau gyda thoiledau union oddi ar yr A55 (C), yn rhywle fel Cyffordd 6, Tyrpeg Nant. Nid ydynt yn ymwybodol o'r apiau canfod toiledau ond mae hyn yn rhywbeth a allai fod o ddefnydd ond byddai angen i doiledau fod mewn ardaloedd y mae modd i fysus / bysus pleser gael atynt.

# Atodiad 5
## Holiadur ynghylch Toiledau

**1.** Ydyw'n hawdd canfod toiled pan fyddwch yn Ynys Môn?

YDYW NAC YDYW

**2.** Ydyw prinder toiledau cyhoeddus erioed wedi eich atal rhag ymweld ag ardal siopa neu atyniad?
(e.e. traeth) ar Ynys Môn?

YDYW NAC YDYW

**Os ydyw, lle ar Ynys Môn oedd hyn?**

..........................................................................

**3.** Ticiwch unrhyw un o'r isod sy'n berthnasol i chi: -

- □ Dim ond toiledau sy'n rhad ac am ddim yr ydw i'n eu defnyddio.
- □ Byddwn yn hapus i dalu tâl bychan i ddefnyddio toiled.
- □ Dim ond toiledau i gwsmeriaid mewn siopau, caffis a bwytai ac ati y byddaf i'n eu defnyddio.
- □ Nid wyf yn hoffi defnyddio toiledau mewn siopau a bwytai oherwydd rwy'n teimlo bod angen i mi brynu rhywbeth.
- □ Rwy'n ceisio osgoi defnyddio toiledau cyhoeddus (gan gynnwys y rhai mewn siopau neu fwytai), pan fyddaf allan.

**4**. Ydych chi erioed wedi dewis peidio â defnyddio toiled y Cyngor ar Ynys Môn o gwbl?

DO NADDO

**Pam oedd hyn?: -**

**…………………………………………………………………………………………………**

**5.** Oes busnes preifat ar Ynys Môn (e.e. siop) erioed wedi gwrthod gadael i chi ddefnyddio'i doiled?

OES NACOES

**Fedrwch chi ddweud wrthym lle oedd hyn: -**

**……………………………………………………..**

**6.** Ydych chi'n meddwl y dylai bod cynllun ar gael lle gall pobl â chyflyrau penodol roi gwybod i fusnesau preifat am eu cyflwr yn ddistaw fel y gallant ddefnyddio’u toiledau mewn argyfwng?

YDW NAC YDW

**7.** Fyddwch chi'n poeni a fyddwch chi'n gallu mynd i doiled pan fyddwch chi allan?

YDW NAC YDW

**8**. Ydych chi'n ymwybodol o'r Cynllun Toiledau Cymunedol, lle mae busnesau lleol yn derbyn arian Llywodraeth Cymru i sicrhau bod eu toiledau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd?

YDW NAC YDW

**9.** A fyddech chi'n ystyried defnyddio ap ffôn symudol i'ch helpu i ganfod y toiled cyhoeddus agosaf pan fyddwch yn Ynys Môn?

BYDDEM NA FYDDEM

**10.** A allwch ddweud ychydig amdanoch chi'ch hun wrthym?

| | |
|---|---|
| **Oedran** | 16-24 ☐ 25-34 ☐ 35-44 ☐ 45-54 ☐ 55-64 ☐ 65+ ☐ |
| **Rhywedd** | Gwrywaidd ☐ Benywaidd ☐ |
| **Côd Post** | |

## Yr holiadur hwn

Mae'r holiadur hwn yn gofyn eich barn am doiledau y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio ar Ynys Môn fel rhan o Asesiad o Anghenion ar gyfer Strategaeth Toiledau Cyhoeddus a gynigir gan Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2016.